# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 19 a 26 Mehefin 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

18 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

20 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cynghorwyr Arbennig (Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol 2003)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y cynghorwyr arbennig sydd newydd eu hailbenodi a'r Blaid Lafur, wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2003? (WAQ26289)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Ymddiswyddodd dau o'r cynghorwyr arbennig sydd newydd gael eu hailbenodi o'u swyddi yn ystod ymgyrch etholiadol y Cynulliad. Parhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflogi'r cynghorydd arbennig arall, a barhaodd i roi cyngor i'r Gweinidogion ar ymgymryd â'u cyfrifoldebau gweinidogol.

### Cynghorwyr Arbennig a'r Blaid Lafur

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau sy'n mynd yn eu blaen ar hyn o bryd, ac a fu yn y gorffennol, rhwng y Blaid Lafur a'r tri chynghorydd arbennig a ailbenodwyd ? (WAQ26290)

**Nick Bourne:** Yn yr hysbyseb am y tri chynghorydd arbennig i'r Prif Weinidog a'r Cabinet a ymddangosodd yn atodiad swyddi *The Western Mail* ar 12 Mehefin 2003, nodir bod y dyletswyddau yn cynnwys cysylltu â'r Blaid Lafur. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr agwedd hon o'r swydd? (WAQ26291)

**Y Prif Weinidog:** Mae'n un o nodweddion neilltuol cynghorwyr arbennig eu bod yn gallu rhoi cyngor gwleidyddol ac, wrth wneud hynny, gysylltu â phlaid wleidyddol Gweinidogion. Caiff cynghorwyr arbennig eu gwahardd rhag ymgyrchu ar ran pleidiau gwleidyddol.

### Nifer y Cynghorwyr Arbennig

**Nick Bourne:** A all Prif Weinidog Cymru nodi'r rhesymau paham bod angen chwe chynghorydd arbennig i'w gynghori ef a'i Gabinet ar faterion sy'n gysylltiedig â thrafod y wasg a chysylltiadau o fewn y Blaid Lafur, ynghyd â dyletswyddau eraill? (WAQ26292)

**Y Prif Weinidog:** Cymeradwyodd y Cyfrin Gyngor nifer y cynghorwyr arbennig ym mis Hydref 2000. Dim ond rhan fach iawn o ddyletswyddau'r cynghorwyr arbennig yw trafod y wasg a chysylltiadau o fewn y Blaid Lafur. Eu prif ddyletswyddau yw rhoi cyngor gwleidyddol am ddatblygu polisi, am roi'r maniffesto ar waith a chysylltu ag adrannau a swyddfeydd gweinidogol San Steffan.

### Cynghorwyr Arbennig (Cost Recriwtio)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym beth oedd y gost, gan gynnwys TAW a chostau eraill, ynghyd â threuliau, o ddefnyddio Partneriaeth Daniels Smalley Cyf i chwilio am dri chynghorydd arbennig newydd i'r Prif Weinidog a'r Cabinet? (WAQ26293)

**Y Prif Weinidog:** Ni fydd cost derfynol defnyddio Partneriaeth Daniels Smalley ar gael hyd nes y bydd nifer y pecynnau gwybodaeth a gafodd eu hanfon, a nifer y ceisiadau a ddaeth i law, yn hysbys. Hyd yma, mae'r gost wedi cyrraedd tua £3,300.

### Cynghorwyr Arbennig (Cost Hysbyseb yn *The Western Mail*)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym beth oedd cost, gan gynnwys TAW, hysbysebu yn atodiad swyddi *The Western Mail* ar 12 Mehefin 2003 i chwilio am dri chynghorydd arbennig newydd i'r Prif Weinidog a'r Cabinet (tudalen 8)? (WAQ26294)

**Y Prif Weinidog:** Cost yr hysbyseb, gan gynnwys TAW, oedd £8,341.66.

### Cynghorwyr Arbennig (Cost Cyflogi)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym beth yw cyfanswm y gost flynyddol o gyflogi'r tri chynghorydd arbennig presennol sydd newydd eu hailbenodi, gan gynnwys pensiynau, yswiriant gwladol ac unrhyw gostau eraill? (WAQ26295)

**Y Prif Weinidog:** Costau llawn cyflogi'r tri chynghorydd arbennig cyfredol, gan gynnwys eu cyflogau blynyddol, yswiriant gwladol a phensiwn, oedd £159,865.25.

### Llywodraeth Agored ar Waith

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y ffordd y mae'r Cynulliad hwn am roi llywodraeth agored ar waith? (WAQ26360)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi ymrwymo i gynnal busnes y Cynulliad mewn modd agored. Dyna pam yr ydym wedi cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, sy'n mynd y tu hwnt i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Y llynedd, lansiwyd cynllun cyhoeddi pellgyrhaeddol gennym. O'r mis nesaf, bydd y ffeithiau a'r dadansoddiadau yr wyf fi a'm cyd-aelodau yn y Cabinet yn dibynnu arnynt wrth wneud penderfyniadau yn cael eu rhoi ar y rhyngrwyd. Mae hwn yn gam mawr ymlaen a byddwn yn ystyried pa mor dda y mae'n gweithio ym mis Rhagfyr.

Erbyn i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gael ei rhoi ar waith yn llawn yn 2005, yr wyf yn disgwyl i'r Cynulliad gael ei weld fel corff sy'n arwain y gad ym mhob haen o lywodraeth o ran bod yn agored.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Twristiaeth Ddiwylliannol

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl ymchwilio i hanes teuluol o fewn twristiaeth ddiwylliannol? (WAQ26033) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Drwy gydol 2002, bu Bwrdd Croeso Cymru yn datblygu strategaeth ar dwristiaeth ddiwylliannol. Wrth wneud hynny, gweithiodd y bwrdd yn agos gyda Cymru'n Creu ac ymgynghorwyd ag amrywiaeth eang o gyrff.

Mewn datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad ar 1 Ebrill 2003, cyhoeddais fy mod wedi cymeradwyo'r strategaeth. Mae copïau o'r strategaeth lawn a chrynodeb gweithredol ohoni, ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad neu mae modd ei gweld ar wefan y bwrdd (www.wtbonline.gov.uk). Erbyn hyn, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi sefydlu partneriaeth twristiaeth ddiwylliannol, fel is-grŵp o Cymru'n Creu, i ddatblygu'r strategaeth. Cyfarfu am y tro cyntaf ar 12 Mehefin 2003.

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth wasanaeth achyddol, ac mae'n awyddus i ddatblygu canolfan i wasanaethau hanes teuluol cenedlaethol. Cynhaliwyd trafodaethau yn y gorffennol rhwng Bwrdd Croeso Cymru a'r llyfrgell genedlaethol ynglŷn â photensial gwasanaethau o'r fath i dwristiaeth a sut y gellid datblygu'r potensial hwnnw i ddod ag ymwelwyr i Gymru. Gan fod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn aelod o'r bartneriaeth twristiaeth ddiwylliannol, gallai fod cyfle i ystyried ymhellach sut mae modd datblygu'r gwasanaethau hanes teuluol presennol i gyd-fynd â thwristiaeth ddiwylliannol. Yr wyf wedi gofyn iddi wneud hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Cwmnïau o'r Unol Daleithiau sy'n Buddsoddi yng Nghymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru enwau'r cwmnïau hynny o'r Unol Daleithiau sydd wedi buddsoddi yng Nghymru, a hynny ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ26010)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2003 mae'r cwmnïau canlynol o'r Unol Daleithiau wedi nodi eu bwriad i ymgymryd â phrosiectau buddsoddi yng Nghymru: Hedstrom (UK) Cyf., Ynys Môn, Technboard Cyf., Blaenau Gwent, Manders Paints Cyf., Wrecsam, General Electric Aircraft Engine Services Cyf., Caerffili, Textron Automotive UK, Caerffili, Is-adran Peboc o Eastman Chemical (UK) Cyf., Llangefni, Wall Colmonoy Corporation, Castell-nedd Port Talbot, Metal Improvement Co. Inc., Sir y Fflint, Modis UK Cyf., Casnewydd, EPC, Blaenau Gwent, BankOne International, Caerdydd, FIRSTPLUS Financial Group PLC, Caerdydd, Coca-Cola & Schweppes Beverages, Caerdydd, Oasis Technologies (UK) Cyf., Bro Morgannwg, International Rectifier Co. (GB) Cyf., Abertawe a Chasnewydd (dau brosiect), Rachel's Dairy Cyf., Aberystwyth, Kimberly Clark Cyf., Sir y Fflint, Visteon Corporation, Castell-nedd Port Talbot, Eriez Magnetics Europe Cyf., Caerffili, Nice-Pak International Cyf., Sir y Fflint, Ford Motor Company, Pen-y-bont ar Ogwr, Kaye (Presteigne) Cyf., Powys, Cooper Standard Automotive Cyf., Pen-y-bont ar Ogwr, Duracell UK, Wrecsam, NTL Group Cyf., Abertawe, Bowman Research (UK) Cyf, Casnewydd, Manpower Plc, Sir Benfro, Minergy Renewables Cyf., Sir y Fflint, Reflectone UK Cyf., Ynys Môn, Spear Europe Cyf, Tor-faen, Asyst Technologies UK Cyf., Casnewydd, GE Power Systems, Castell-nedd Port Talbot, Solectron Wales, Casnewydd, E.T. Equipment Cyf., Caerffili, Dura Cables Cyf., Llanelli, Borden Chemical UK Cyf., Bro Morgannwg, Yearntree Cyf., Casnewydd, Almedica Europe Cyf., Sir y Fflint, Arvin Meritor HVBS UK Cyf., Tor-faen, On:Line Finance Cyf., Rhondda Cynon Taf, Agilent Technologies, Abertawe, Electroimpact UK Cyf., Sir y Fflint, SPX Contech, y Trallwng, Reynolds Industries Cyf., Tor-faen, Curwood Packaging Cyf., Abertawe, Euro/DPC Cyf., Gwynedd, C.F. Taylor (B/E) UK Cyf., Rhydaman, Borg Warner Automotive Cyf., Abertawe, Great Lakes Chemical Corp, Sir y Fflint, Georgia Pacific GB Cyf., Pen-y-bont ar Ogwr, Burtons Gold Medal Biscuits Cyf., Tor-faen, Electronic Data Systems Cyf., Abertawe, Nordam Europe Cyf, Caerffili, Trico Cyf., Tor-faen, TRW Lvbs, Tor-faen, Corning Optical Fibres, Sir y Fflint, Steax UK Cyf., Castell-nedd Port Talbot, Unico (UK) Cyf., RhCT, ICN Pharmaceuticals, Abertawe, Resource America Inc, Sir y Fflint, Weartech International Cyf., Sir Gaerfyrddin, In Solutions, Caerdydd, INFONXX Inc, Caerdydd, Moulded Paper International, Caerffili, New England Wood Products Corporation, Merthyr Tudful, Advanced Biologics (Europe) Cyf., Rand Technology Europe Cyf., Caerffili, BTS Group, Abertawe, EPC Direct UK Cyf., Blaenau Gwent, Cambrian Windows Cyf., Sir Benfro, Argonaut Technologies Cyf., Pontypridd, Convatec Cyf., Sir y Fflint, General Dynamics United Kingdom Cyf., Caerffili, Habit Diamond Cyf., Conwy, Techniglass Cyf., Rhondda Cynon Taf, Ortho Clinical Diagnostics Cyf., Pen-y-bont ar Ogwr, Oshkosh Truck Corporation, Rhondda Cynon Taf, Alcoa Manufacturing (GB) Cyf., Abertawe, a Shorewood EPC Europe Cyf., Blaenau Gwent.

### Buddsoddi Mewnol o'r Unol Daleithiau

**Alun Cairns:** Pa fuddsoddi mewnol y llwyddwyd i'w ddenu i Gymru o'r Unol Daleithiau ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ26011)

**Andrew Davies:** Mae'r tabl isod yn cynnwys manylion y prosiectau a gofnodwyd gan is-adran ryngwladol Awdurdod Datblygu Cymru sydd a wnelont â chwmnïau o'r Unol Daleithiau.

| Blwyddyn Ariannol | Nifer y Prosiectau | Swyddi Disgwyliedig (Newydd ac wedi'u Diogelu) | Buddsoddiad Cyfalaf Llawn a Ragwelwyd |
|---|---|---|---|
| 1998-99 | 16 | 3,457 | 144.787 |
| 1999-2000 | 18 | 4,416 | 431.430 |
| 2000-01 | 13 | 3,223 | 345.718 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2001-02 | 21 | 2,539 | 167.386 |
| 2002-03 | 19 | 2,283 | 79.347 |

**Swyddfeydd Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Unol Daleithiau**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y staff sy'n gweithio ym mhob un o swyddfeydd Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Unol Daleithiau? (WAQ26012)

**Andrew Davies:** Mae cyfanswm o 14 o aelodau staff yr awdurdod datblygu yn gweithio yn yr Unol Daleithiau: chwech yn Chicago, pedwar yn San Francisco, a phedwar yn Efrog Newydd.

**Swyddfeydd Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Unol Daleithiau**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y staff sy'n gweithio ym mhob un o swyddfeydd Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Unol Daleithiau, a hynny ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ26013)

**Andrew Davies:** Mae nifer y staff yn swyddfeydd yr awdurdod datblygu yn yr Unol Daleithiau ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf fel a ganlyn. Yn 1999: pedwar yn Chicago, un yn San Francisco, dau yn Efrog Newydd ac un yn Boston—cyfanswm o wyth. Yn 2000: chwech yn Chicago, dau yn San Francisco, dau yn Efrog Newydd, un yn Boston ac un yn Dallas—cyfanswm o 12. Yn 2001: pump yn Chicago, dau yn San Francisco, dau yn Efrog Newydd ac un yn Boston—cyfanswm o 10. Yn 2002 a 2003: chwech yn Chicago, pedwar yn San Francisco a phedwar yn Efrog Newydd—cyfanswm o 12.

**Ffordd Liniaru ar gyfer y Drenewydd, Sir Drefaldwyn**

**Glyn Davies:** Yn dilyn OAQ24330, pryd y bydd yr ymchwiliadau i'r opsiynau ar gyfer ffordd liniaru ar gyfer y Drenewydd, Sir Drefaldwyn yn dechrau a phryd y mae disgwyl iddynt ddod i ben? (WAQ26032)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn bwriadu dyfarnu comisiwn am astudiaeth eleni. Bydd yn cymryd rhyw ddwy flynedd i'r ymgynghorwyr gloriannu'r llwybrau posibl, a fydd wedyn yn destun ymgynghori cyhoeddus. Caiff yr opsiwn a ffafrir ei gyhoeddi wedi hynny.

**Maes Awyr Abertawe**

**Alun Cairns:** Faint o arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad wedi'i roi i gefnogi gwelliannau i faes awyr Abertawe? (WAQ26270)

**Andrew Davies:** Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cymeradwyo cymeradwyaeth gredyd atodol o £620,000 ar gyfer gwella'r goleuadau ar y rhedfa a mesurau diogelwch ym maes awyr Abertawe yn ystod 2002-03 a 2003-04. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu'r elfen taliadau benthyca o £62,000 am y gymeradwyaeth gredyd hon. Yn ogystal, cafodd cymorth rhanbarthol dewisol o £210,000 ei gynnig ar 2 Mehefin 2003 i gynorthwyo gyda'r cynlluniau i wella'r maes awyr, gan gynnwys gwariant cyfalaf o £545,000 ar systemau rheoli trafnidiaeth awyr a chymorth cyfeirio a chreu 13 o swyddi.

**Pobl 18 i 24 oed sy'n Economaidd Anweithgar**

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar newidiadau yn nifer y bobl 18 i 24 oed sy'n economaidd anweithgar ac sy'n fyfyrwyr ers 2001? (WAQ26271)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y newid mewn anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 18 i 24 oed er 2001 a'r newid yn y gyfran o'r rhain sy'n fyfyrwyr? (WAQ26272)

**Andrew Davies:** Mae'r wybodaeth a geisir i'w gweld yn y tabl isod. Yn ôl Arolwg y Gweithlu Llafur, bu cynnydd bach yn nifer y bobl 18 i 24 oed sy'n anweithgar yn economaidd rhwng 2001 a 2002. Bu gostyngiad bach yn nifer a chyfran y rhai a oedd yn fyfyrwyr.

I'r boblogaeth oed gwaith drwyddi draw, mae'r wybodaeth ddiweddaraf (wedi'i haddasu yn ôl y tymor) o Arolwg y Gweithlu Llafur rhwng Chwefror ac Ebrill 2003 yn amcangyfrif bod 419,000 o bobl yn anweithgar yn economaidd yng Nghymru, sef 50,000 yn llai na'r cyfartaledd yn 2001.

**Anweithgarwch Economaidd ymysg pobl 18 i 24 oed yng Nghymru**

| **Anweithgar yn economaidd (miloedd):** | **2001**(1) | **2002**(1) | **Newid 2001-02** |
|---|---|---|---|
| Myfyrwyr | 44 | 42 | -2 |
| Ddim yn fyfyrwyr | 29 | 35 | 6 |
| **Cyfanswm** | **73** | **77** | **4** |
| Cyfran a oedd yn fyfyrwyr | 61 y cant | 55 y cant | -6 y cant |

(1) Cyfartaledd pedwar chwarter yn cwmpasu Mawrth i Chwefror, e.e. 2001 = Mawrth 2001 hyd at Chwefror 2002.
Noder: Nid yw'r data wedi cael eu haddasu ar sail cyfrifiad 2001.

**Swyddi Transco**

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch diogelu swyddi gyda Transco yng Nghymru? (WAQ26273)

**Andrew Davies:** Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda'r cwmni am y mater hwn a materion ehangach. Mae'n ofynnol i Transco, fel rhan o'r busnes sydd newydd uno, Grid Cenedlaethol Transco, gyrraedd targedau ariannol a bennir gan reoleiddiwr y diwydiant ynni, y swyddfa dros farchnadoedd nwy a thrydan, ac mae'n archwilio i'r costau a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phob un o'i leoliadau fel rhan o adolygiad ar hyd a lled y busnes. Nid yw'r adolygiad hwn wedi cael ei gwblhau eto ac nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud mewn perthynas â swyddfeydd yng Nghymru. Byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**Swyddi gyda'r Cyfleustodau sydd wedi'u Preifateiddio**

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch diogelu swyddi yn swyddfeydd y cyfleustodau sydd wedi'u preifateiddio yng Nghymru? (WAQ26274)

**Andrew Davies:** Ni chynhaliwyd trafodaethau penodol gyda'r cyfleustodau sydd wedi'u preifateiddio yng Nghymru, ond gwn fod pryderon mewn rhai sectorau. Yr wyf wedi ateb ar wahân am y trafodaethau gyda Transco ac, ar yr ochr gadarnhaol, cafodd 200 o swyddi eu creu yng Nghaerdydd y llynedd yn sgîl agor canolfan werthu genedlaethol Nwy Prydain.

**Damweiniau Ffordd ar yr A55**

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog restru, fesul blwyddyn, yr holl ddamweiniau sydd wedi digwydd ar yr A55 yn ystod y pum mlynedd diwethaf? (WAQ26349)

**Andrew Davies:** Mae'r data canlynol wedi cael eu tynnu o gronfa ddata ganolog sy'n cynnwys ystadegau am ddamweiniau ffordd drwy Gymru, ac nad yw ond yn cynnwys damweiniau ffordd yr hysbyswyd yr heddlu amdanynt, lle'r achoswyd anafiadau personol.

**Damweiniau ffordd ar yr A55** (a) (b)

| Blwyddyn | Nifer |
|---|---|
| 1997 | 119 |
| 1998 | 132 |
| 1999 | 117 |
| 2000 | 110 |
| 2001 | 130 |

(a) Data am ddamweiniau a gofnodwyd gan yr heddlu fel damweiniau ar yr A55. Ni fydd damweiniau wedi cael eu cynnwys felly os cafodd rhif y ffordd ei godio yn anghywir.
(b) Caiff data 2002 eu cyhoeddi ar 26 Mehefin 2003.

### Rhan yr A55 nad yw'n rhan PFI

**Brynle Williams:** Faint yw costau cynnal blynyddol rhan yr A55 nad yw'n rhan menter cyllid preifat? (WAQ26353)

**Andrew Davies:** Mae cost y gwaith cynnal yn amrywio yn flynyddol gan ddibynnu ar faint o waith gosod wyneb newydd neu waith strwythurol mawr a wneir. Y gost yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2002-03) oedd £10.5 miliwn.

### Y Diwydiant Gweithgynhyrchu

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? (WAQ26531)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru'n Ennill', strategaeth datblygu economaidd genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, yn pwysleisio'r angen i adeiladu ar ein cryfderau sylweddol ym maes gweithgynhyrchu. Yr ydym wedi mabwysiadu nifer o raglenni sydd wedi'u hanelu'n benodol at weithgynhyrchu, megis y gwasanaeth cyngor gweithgynhyrchu, y ganolfan ranbarthol dros ragoriaeth ym maes gweithgynhyrchu a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol, megis Cerbydau Cymru. Ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, yr ydym hefyd yn cynorthwyo sectorau penodol o fewn y diwydiant drwy fforymau o dan arweinyddiaeth y diwydiant, megis y fforymau cerbydau, electroneg ac awyrofod. Yr ydym hefyd yn cefnogi llawer o'r argymhellion yn y strategaeth gweithgynhyrchu a gyhoeddwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant ym mis Mai 2002.

### Ardal Hafod, Abertawe (Problemau Traffig)

**Peter Black:** Pryd fydd y Gweinidog yn cyhoeddi canlyniad yr astudiaeth annibynnol gan gyngor Abertawe, a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar y problemau traffig sy'n gyffredin yn ardal Hafod y ddinas? (WAQ26532) [R]

**Andrew Davies:** Cyflwynodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe astudiaeth drafnidiaeth a datblygu canol y ddinas i'r Cynulliad am ei sylwadau ddiwedd Mawrth eleni. Mae fy swyddogion ar fin ysgrifennu, gan nodi eu sylwadau swyddogol am yr astudiaeth. Cyn gynted ag y caiff yr astudiaeth hon ei chwblhau, bydd astudiaeth trafnidiaeth integredig Hafod, sy'n rhan annatod o'r astudiaeth gyffredinol, yn cael ei chwblhau'n derfynol.

### Ardal Hafod, Abertawe (Problemau Traffig)

**Peter Black:** Ar wahân i gyllid, beth oedd rôl adran y Gweinidog yn y gwaith o lunio'r astudiaeth annibynnol gan gyngor Abertawe ar y problemau traffig sy'n gyffredin yn ardal Hafod y ddinas? (WAQ26533) [R]

**Andrew Davies:** Cyfarfu fy rhagflaenydd, Sue Essex AC, â'r Cynghorwr Burtonshaw a swyddogion Cyngor Dinas a Sir Abertawe a'r diweddar Val Feld AC i drafod cynigion am ffordd osgoi Hafod ar 19 Gorffennaf 2000. Ystyriodd fy swyddogion hefyd gynigion am gyllid grant trafnidiaeth ar gyfer astudiaeth trafnidiaeth integredig Hafod. Darparwyd £50,000 yn 2002-03 ac eto yn 2003-04.

### Datblygu Polisïau ar Gamlesi

**Glyn Davies:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gymryd rhagor o gyfrifoldeb am ddatblygu polisïau mewn perthynas â chamlesi? (WAQ26544)

**Andrew Davies:** Ni ddatganolwyd y cyfrifoldeb ar gyfer dyfrffyrdd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yr wyf yn bwriadu parhau â'r diddordeb a ddangosodd Sue Essex yng nghynlluniau datblygu Dyfrffyrdd Prydeinig ar gyfer y rhwydwaith camlesi yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Prosiect y Coleg Digidol

**Leighton Andrews:** Pa gymorth y mae adran y Gweinidog wedi ei roi i brosiect y coleg digidol ac at ba ddiben? (WAQ26036)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu Coleg Digidol Cymru i gynnal prosiect tair blynedd a fydd yn mynd ati i ddefnyddio technoleg rhyngrwyd band eang i gyflwyno addysg i grwpiau a nodwyd fel rhai y mae perygl iddynt gael eu hallgáu yn gymdeithasol, megis y rhai sydd â phroblemau llythrennedd, rhifedd ac iaith. Derbyniodd y prosiect gyllid o £399,850 yn 2002-03 ac mae'r gyllideb ar gyfer 2003-04 yn cael ei hystyried ar hyn o bryd.

Bydd y pecynnau dysgu sydd i'w datblygu gan y prosiect hwn yn defnyddio deunydd fideo a sain heb hawliau arno i ddenu dysgwyr ac i'w wneud yn haws i eraill gynhyrchu cynnwys ar gyfer y cyrsiau. Erbyn y dyddiad gorffen, sef Mawrth 2005, gobeithiwn i'r prosiect ddenu 11,700 o ddysgwyr i'r pecynnau dysgu hyn. Yn amodol ar eu gwerthuso, efallai y cânt eu darparu'n fwy eang wedyn.

### Cynorthwyo Pobl Ifanc yn Ne Caerdydd a Phenarth

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo pobl ifanc yn Ne Caerdydd a Phenarth? (WAQ26040)

**Jane Davidson:** Ein blaenoriaeth ar gyfer De Caerdydd a Phenarth, fel ar gyfer gweddill Cymru, yw tywys yr agenda ymestyn hawliau, a gymeradwywyd gan y Cynulliad, yn ei blaen. Mae 'Ymestyn Hawliau' yn nodi agenda bolisi'r Cynulliad o ran cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru. Awgrymai un o argymhellion allweddol yr adroddiad mai partneriaethau o ddarparwyr lleol fyddai yn y sefyllfa orau i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cymorth i bobl ifanc. Daeth y ddeddfwriaeth, sy'n cyfarwyddo awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth ag amryw o gyrff sy'n darparu cymorth i bobl ifanc, i rym ar 1 Medi 2002 ac, erbyn hyn, mae'r partneriaethau pobl ifanc lleol hyn yn tywys agenda'r Cynulliad ar roi cymorth i'r ifanc yn ei blaen. Ymysg y partneriaid allweddol eraill yn y maes ymestyn hawliau, y mae Canllaw Online, sy'n gwireddu hawl pobl ifanc i wybodaeth, a'r Ddraig Ffynci, cyfrwng y Cynulliad i ymgynghori â phobl ifanc a rhoi llais iddynt mewn penderfyniadau.

Gofynnwyd i'r partneriaethau pobl ifanc archwilio'r ddarpariaeth bresennol a gweithio gyda phobl ifanc i asesu ei heffeithlonrwydd a chanfod anghenion. Dylai'r ymarferiad amlygu bylchau ac unrhyw ddyblygu yn y ddarpariaeth. Mae angen hefyd archwilio adnoddau—dynol, cyfalaf ac ariannol—fel y gall partneriaethau pobl ifanc, dros amser, asesu effeithiolrwydd y patrymau gwario presennol. Fodd bynnag, mae gan y partneriaethau yn awr fwy o wybodaeth nag erioed o'r blaen am y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc.

Gwnaed llawer o waith da mewn cyfnod cymharol fyr gan brif weithredwyr awdurdodau lleol wrth iddynt sefydlu'r fframwaith i roi 'Ymestyn Hawliau' ar waith o fewn amserlen Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n ofynnol i bob un o'r partneriaethau pobl ifanc gynhyrchu strategaethau pum mlynedd; rhestrir isod y blaenoriaethau a nodwyd gan bartneriaethau pobl ifanc Bro Morgannwg a Chaerdydd am 2003-08.

**Blaenoriaethau Lleol y Partneriaethau Pobl Ifanc ym Mro Morgannwg a Chaerdydd**

| **Ardal** | **Blaenoriaethau Lleol** |
|---|---|
| **Bro Morgannwg** | |
| 1. | Creu mynediad at wybodaeth i bobl ifanc |
| 2. | Datblygu systemau er mwyn rhannau gwybodaeth |
| 3. | Ehangu'r ddarpariaeth a gwella mynediad |
| **Caerdydd** | |
| 1. | Datblygu mecanweithiau i sefydlu a monitro'r ffordd y caiff hawliau eu cyflwyno i bobl ifanc |
| 2. | Sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ac yr ymgynghorir â hwy yn eu cylch |
| 3. | Datblygu trefn rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau er mwyn gallu cyd-drefnu ymyriadau wedi'u targedu'n well at bobl ifanc unigol |
| 4. | Sicrhau dull wedi'i gyd-drefnu o gyflwyno gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc, gan ehangu'r ddarpariaeth bresennol |
| 5. | Cyd-drefnu ac ehangu systemau cyfarwyddyd a chymorth i bobl ifanc |
| 6. | Ehangu'r cyfleoedd i gyfranogi o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol, gan sicrhau bod hawl yn bodoli i bob person ifanc fanteisio ar gyfleoedd dysgu priodol |
| 7. | Hyrwyddo iechyd corfforol, emosiynol a chymdeithasol da drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig o ran cyd-gynllunio a chomisiynu gwasanaethau sy'n cael eu targedu at bobl ifanc |

### Darparu Llaeth am Ddim yng Nghyfnod Allweddol 2

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwyno llaeth am ddim yng nghyfnod allweddol 2 mewn ysgolion cynradd? (WAQ26228)

**Jane Davidson:** Dechreuodd cynllun llaeth am ddim Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfnod allweddol 1 (disgyblion pump i saith oed) ym mis Chwefror 2001. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i wella maeth plant, gan gydnabod y cyswllt rhwng deiet cytbwys a'r gallu i ddysgu.

Mae nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan wedi cynyddu'n raddol ac mae'r swyddogion wrthi'n gwerthuso'r cynllun ar hyn o bryd. Cedwir ffrwyth yr adolygiad hwn mewn cof wrth ystyried pa un ai i'w ymestyn i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Caiff ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu brecwast am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru ei roi ar waith o fis Medi 2004, gydag ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn elwa i ddechrau. Caiff pob ysgol ei chynnwys o fis Medi 2006.

### Celf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth ar gyfer celf yn y cwricwlwm cenedlaethol? (WAQ26229)

**Jane Davidson:** Mae celf yn bwnc gorfodol yn y cwricwlwm cenedlaethol i gyfnodau allweddol 1, 2 a 3 ac mae'r rhaglen astudio ofynnol wedi'i phennu gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Yr oedd y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru yn destun ymgynghoriad ac adolygiad eang eu cwmpas yn 2000, a'r ymgynghori hwnnw arweiniodd at y rhaglen astudio bresennol ar gyfer pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, gan gynnwys celf. Mae'r rhaglen astudio ar gyfer celf yn rhoi'r cyfle i

ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu sgiliau creadigol drwy eu hastudiaethau, yn arbennig i ddatblygu a mynegi syniadau a dychymyg.

**Dysgu ac Addysgu Cymru**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf yn ELWa? (WAQ26230)

**Jane Davidson:** Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu ar hyn o bryd at yr hyn yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau drwy fy adroddiad i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a thrwy ddatganiadau i'r Cyfarfod Llawn fel sy'n briodol.

**Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion (Ffactorau Amddifadedd)**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd a wneir gan awdurdodau addysg lleol yng Nghymru o ffactorau amddifadedd yn y fformiwlâu ar gyfer penderfynu cyllidebau dirprwyedig ysgolion? (WAQ26231)

**Jane Davidson:** Dangosodd astudiaeth gan y Comisiwn Archwilio, a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth y Cynulliad ddiwedd y llynedd, fod pum awdurdod yn defnyddio'r hawl i brydau ysgol am ddim a phedwar yn defnyddio cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys prydau ysgol am ddim, er mwyn bwrw cyfrif o amddifadedd yn eu fformiwlâu.

Yr oedd yr ymgynghoriad diweddar ynghylch disodli Rheoliadau Cyllido Ysgolion a Gynhelir 1999 yn gwahodd barn am y ffactorau a fydd yn cael eu pennu mewn rheoliadau newydd, i'w defnyddio yn fformiwlâu cyllido'r awdurdodau o safbwynt cyllidebau dirprwyedig ysgolion. Gofynasom yn benodol a ddylai fod yn ofynnol i awdurdod gynnwys ffactor amddifadedd yn ei fformiwla.

Daeth yr ymgynghori i ben ar 13 Mehefin ac mae'r ymatebion yn cael eu hasesu yng nghyd-destun paratoi rheoliadau a chanllawiau drafft. Bydd y rhain yn destun ymgynghori pellach yn yr hydref.

**Cyfleoedd ym Maes Addysg (De Caerdydd a Phenarth)**

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella cyfleoedd ym maes addysg yn Ne Caerdydd a Phenarth? (WAQ26232)

**Jane Davidson:** Bwriad y polisïau a nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' yw gwella'r cyfleoedd addysgol i bawb sy'n byw yn Ne Caerdydd a Phenarth, ac yng Nghymru benbaladr, drwy gael rhagor o athrawon, gwell cymarebau disgybl:athro, lleihau maint dosbarthiadau, gwella safonau a chyrhaeddiad ac ehangu mynediad a chyfranogiad. Mae enghreifftiau o hyn, fel y mae'n effeithio ar Gaerdydd a Bro Morgannwg, yn ymestyn ar draws y maes addysg a dysgu gydol oes yn ei gyfanrwydd, ac maent yn cynnwys:

- buddsoddi yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar: dyraniadau ychwanegol o £200,000 yr un i Fro Morgannwg a Chaerdydd;
- buddsoddi mwy mewn addysg ysgolion: cynyddodd Bro Morgannwg ei chyllideb addysg am 2002-03 11.2 y cant a Chaerdydd 7.7 y cant;
- buddsoddi mewn adeiladau ysgol: dyrannwyd adnoddau gwerth rhyw £45 miliwn i Gaerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer defnydd cyfalaf penodol a chyffredinol yn 2003-04;
- cymorth i bobl ifanc mewn addysg uwch ac addysg bellach: bron i 3,000 o ymgeiswyr llwyddiannus am grantiau dysgu'r Cynulliad yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg; a
- rhoi'r blaenoriaethau hyfforddi a dysgu gydol oes lleol, y penderfynwyd arnynt drwy'r consortia cymunedol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid ar gyfer Coleg Hyfforddiant Adeiladu newydd Caerdydd, sydd i fod i gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2004 gan ddarparu hyd at 300 o leoedd hyfforddi i hyfforddi hyd at lefel crefftwr mewn gwaith coed a gwaith brics, a phrosiect sy'n seiliedig ar ddysgu cymunedol ym Mro Morgannwg fydd yn derbyn £900,000 o gyllid dros y tair blynedd nesaf, £500,000 gan ELWa.

**Anghydraddoldebau o fewn Addysg**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar anghydraddoldebau o fewn addysg yng Nghymru? (WAQ26233)

**Jane Davidson:** Mae anghydraddoldeb o fewn addysg yn arwain at anghydraddoldeb o ran cyfleoedd bywyd. Holl ddiben fy mholisïau, sydd wedi'u nodi yn 'Y Wlad sy'n Dysgu', yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael yr un cyfle i ragori yn ei addysg a thrwy addysg, bod addysg yn rhywbeth am oes, nid dim ond yn yr ysgol, a rhoi cyfle i'r sawl nad ydynt wedi elwa o addysg yn y gorffennol ddysgu yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Mae hyn yn golygu polisïau i ddarparu lleoedd ysgol am ddim i blant tair a phedair oed a darparu brecwast ysgol i blant ysgol gynradd, gan helpu, drwy hynny, i fynd i'r afael â thriwantiaeth a galluogi plant ifanc i ddysgu. Mae'n golygu polisïau i wella safonau addysgu a dysgu a safon yr amgylchedd diriaethol y mae pobl ifanc yn dysgu ynddo, drwy fuddsoddi mewn athrawon, dosbarthiadau â llai o ddisgyblion ac adeiladau ysgol. Mae hefyd yn golygu gweithio i gau'r bwlch rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio'n lleiaf effeithiol, gan gynnwys helpu i ddatblygu athrawon a phenaethiaid fel eu bod yn fwy abl i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae ein polisïau i gynyddu'r defnydd o ysgolion fel canolfannau cymuned—yn darparu canolfan lle gellir cyflwyno addysg a hyfforddiant, gyda chysylltiadau â sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn ogystal â darparu ystod o wasanaethau eraill megis cymorth teuluol, iechyd a hybu menter—yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd difreintiedig lle nad oes cyfleusterau addas ar gael yn aml a lle mae hunan-barch isel ymysg y trigolion lleol yn golygu eu bod yn annhebygol o fanteisio ar gyfleoedd y tu hwnt i'w cyffiniau agos.

Yr ydym yn annog pobl ifanc o grwpiau difreintiedig i ystyried addysg uwch drwy'r ymgyrch 'Anelu'n Uwch'. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru eisoes yn perfformio'n well yn gyson na chyfartaledd y DU o ran denu cymysgedd cymdeithasol eang o fyfyrwyr ac o ran gweithio gyda grwpiau a chymunedau nad oes cynrychiolaeth deg o'u plith o fewn addysg uwch, ond yr ydym am wneud yn well eto. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn darparu cymorth i fyfyrwyr drwy grantiau dysgu'r Cynulliad a chyllid arall sy'n darparu cymorth ariannol ymarferol, wedi'i dargedu, i fyfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch—heb gyfyngiad sy'n dweud bod rhywun yn rhy hen ar ôl rhyw oed penodol—fel hwb gwirioneddol i ehangu mynediad. Mae'r cyfrif dysgu unigol (CDU Cymru), sydd wedi'i dargedu'n well erbyn hyn, wedi ei fwriadu i ehangu cyfranogiad ym maes dysgu drwy annog y rhai sydd heb ddim cymwysterau, neu sydd â chymwysterau isel, i gyfranogi. Ar ben hynny, bydd yn annog y rhai sy'n cael anhawster i ddysgu oherwydd rhwystrau ariannol i gymryd rhan drwy gynnig cymhellion ariannol uwch i'r sawl ar incwm isel.

**Cynlluniau Hyrwyddo Talebau Masnachol**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch effaith cynlluniau hyrwyddo talebau masnachol ar ddarpariaeth offer mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru? (WAQ26234) [R]

**Jane Davidson:** Rhaid i bob ysgol wneud ei phenderfyniadau ei hun ar sail anghenion ei disgyblion a budd cynlluniau o'r fath drwyddynt draw, gan ystyried costau cynnal a chadw parhaus neu gostau eraill a allai godi mewn perthynas â'r offer ac unrhyw effaith bosibl ar y disgyblion yn sgîl prynu'r cynnyrch y mae a wnelo'r cynllun hyrwyddo ag ef.

**Profion yng Nghyfnod Allweddol 2**

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brofion yng nghyfnod allweddol 2? (WAQ26235)

**Jane Davidson:** Hysbysais y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ddoe fy mod wedi gofyn i'r Athro Richard Daugherty gadeirio grŵp cyfeirio ac adolygu a fydd yn mynd ati i gynnal adolygiad eang o'r trefniadau presennol. Bydd y grŵp yn gweithio gydag ACCAC ac yn ategu cylch gwaith yr awdurdod ei hun i adolygu a datblygu'r cwricwlwm ysgolion a'i drefniadau asesu. Bydd y grŵp adolygu yn mynd ati'n egnïol i geisio barn rhieni, athrawon a disgyblion er mwyn penderfynu ar y dull gorau o asesu cyflawniadau pobl ifanc yng Nghymru yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

### Safonau a Pherfformiad Cwmnïau Hyfforddi

**Peter Law:** Sut y mae'r Gweinidog yn monitro safonau a pherfformiad cwmnïau hyfforddi ledled Cymru? (WAQ26236)

**Jane Davidson:** Mater gweithredol i'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yw'r cyfrifoldeb am safonau a pherfformiad darparwyr hyfforddiant yng Nghymru, ac yn gefn i hynny ceir trefniadau arolygu Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r cyngor yn cydnabod yr angen i godi safonau ym mhob sector ac mae wedi datblygu strategaeth sicrhau ansawdd sy'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd. Mae'r cyngor hefyd yn ceisio codi'r safonau ym maes dysgu sy'n seiliedig ar waith drwy ddefnyddio cymhellion sy'n gysylltiedig â'r cymorth cyllido y mae'r cyngor yn parhau i'w ddarparu i sicrhau bod mynediad at ddarpariaeth o safon uchel ar gael ledled Gymru.

Ar ôl ymgynghori'n eang, mae Estyn yn bwriadu cyflwyno fframwaith arolygu newydd o fis Medi 2004 a fydd yn darparu fformat cyffredin i waith arolygu ym mhob sector addysg a hyfforddiant, tra'n sicrhau bod yr arolygu yn parhau i fod yn drylwyr, yn gefnogol ac yn gyfrwng effeithiol i godi safonau.

### Ariannu Addysg Uwch

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu addysg uwch yng Nghymru? (WAQ26237)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi ei gwneud yn glir fy mod wedi ymrwymo i sector addysg uwch bywiog a chynaliadwy yng Nghymru, fel a amlinellwyd yn fy strategaeth 'Cyrraedd yn Uwch', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. Ad-drefnu ac ehangu mynediad yw fy mlaenoriaethau i'r sector o hyd ac, i'r perwyl hwn, yr wyf wedi llwyddo i sicrhau £51 miliwn i dywys y gwaith yn ei flaen hyd at 2005-06. Mae'r cyllid drwyddo draw a ddyrennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cynyddu 20 y cant yn nhermau arian rhwng 2002-03 a 2005-06. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn y sector.

### Ehangu Sefydliadau Addysg Uwch

**John Griffiths:** Pa strategaeth a gaiff ei dilyn i hwyluso'r gwaith o ehangu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i ddarparu manteision addysgol a thrawsbynciol? (WAQ26238)

**Jane Davidson:** Cafodd fy strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru ei nodi yn 'Cyrraedd yn Uwch', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. Yn y tymor byr, yr ydym yn buddsoddi mewn ad-drefnu a mentrau ehangu mynediad. Bydd hyn yn gosod seiliau ar gyfer sector cynhwysol, cynaliadwy ac egnïol, gyda golwg ar ehangu yn y tymor canolig i hir er mwyn inni gyflawni ein targedau ehangu mynediad. Drwy sicrhau bod y seiliau yn eu lle, caiff ansawdd y ddarpariaeth ei ddiogelu a chaiff anghenion y myfyrwyr eu diwallu yn llwyr.

### Gwariant ar Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf

**Leighton Andrews:** Beth oedd lefel derfynol gwariant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar ysgolion ym mlwyddyn ariannol 2002-03? (WAQ26239)

**Jane Davidson:** Pennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyllideb addysg o £138,363 miliwn ar gyfer 2002-03, gan gynnwys grant ELWa—y Cyngor Cenedlaethol tuag at addysg ôl-16 ond heb gynnwys unrhyw grantiau penodol.

Ceir gwybodaeth am lefel wirioneddol y gwariant o ddatganiadau alldro adran 52 a ddilyswyd. Dylai'r wybodaeth fod ar gael o fis Chwefror 2004.

## Ysgolion wedi'u Ffedereiddio

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ysgolion wedi'u ffedereiddio yng Nghymru? (WAQ26241)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog cydweithio rhwng ysgolion cynradd, a ffedereiddio ffurfiol, lle bo hyn yn ffordd ymarferol o resymoli'r ddarpariaeth heb orfod cau ysgolion.

Mae nifer fach o ysgolion wedi'u ffedereiddio, sydd wedi hen ennill eu plwyf, yn gweithredu yn llwyddiannus yng Nghymru, yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Ddinbych. Ymysg y manteision posibl mae:

- cronni staff ac arbenigedd i helpu ysgolion bach i gynnal safonau ar draws y cwricwlwm ac ar draws pob grŵp oedran;
- y cyfrifoldeb am feysydd penodol o'r cwricwlwm yn cael ei rannu gan grŵp ehangach o athrawon;
- disgyblion yn gallu ymuno â'i gilydd mewn grŵp mwy o gyfoedion ar gyfer rhai gweithgareddau;
- canoli'r gweinyddu a'r arweinyddiaeth a'r rheoli o dan un pennaeth gan osgoi dyblygu ymdrech; a
- mwy o debygrwydd y gellir sicrhau dichonolrwydd addysgol ysgolion bach a lleihau'r posibilrwydd o'u cau.

Gall fod anawsterau ymarferol i'w goresgyn pan fo ysgol yn cael ei chynnal ar sawl safle, ac nid yw ffedereiddio yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal adeiladau, nac yn mynd i'r afael â phroblemau diffyg cyfleusterau. Nid yw, felly, yn ateb ymarferol bob tro, ond yr wyf yn disgwyl i awdurdod ystyried ffedereiddio fel opsiwn cyn cyflwyno unrhyw gynnig i gau ysgol wledig.

Er mwyn annog a hwyluso datblygu dulliau arloesol mewn ysgolion bach a gwledig, mae'r Cynulliad yn darparu grant arbennig. Ar gyfer 2003-04 mae'r grant yn £3.5 miliwn. Mae'r grant wedi cael ei ddefnyddio i gynorthwyo ffederasiynau sy'n bodoli eisoes ac, ym Mhowys ac Ynys Môn, i gefnogi cynlluniau 'clystyru' peilot, lle bo un pennaeth wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddwy ysgol. Bydd angen ffurfioli'r trefniadau hyn maes o law, os byddant yn llwyddiannus, un ai drwy gyhoeddi cynigion statudol i ffurfio un ysgol neu drwy hysbysebu swydd y pennaeth fel dwy swydd ran-amser.

Mae yna hefyd ddarpariaethau newydd yn Neddf Addysg 2002 i ganiatáu i gyrff llywodraethu ffedereiddio a gweithio gyda'i gilydd. Byddai'r ysgolion yn cadw eu hunaniaeth unigol, eu cyllidebau dirprwyedig ac, yn y rhan fwyaf o achosion, eu pennaeth eu hunain, ond byddai un corff llywodraethu yn creu'r cyfle i gyd-reoli a chyflawni swyddogaethau'r llywodraethwyr ar y cyd, a gallai leddfu'r broblem o recriwtio llywodraethwyr mewn ardaloedd gwledig. Yr wyf yn rhagweld y bydd rheoliadau galluogi yn dod i rym o fis Medi 2004.

## Darpariaeth Addysg Bellach yn Nelyn

**Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth addysg bellach yn etholaeth Delyn? (WAQ26242)

**Jane Davidson:** Coleg bach arbenigol yw Coleg Garddwriaeth Cymru, sydd wedi'i leoli yn Nelyn, yn cynnig lle i ryw 3,700 o fyfyrwyr y flwyddyn ac yn darparu cymysgedd o addysg bellach gyffredinol (arlwyo, gofalu, busnes/rheoli, technoleg gwybodaeth, gweithgynhyrchu ayb) a darpariaeth arbenigol ym

meysydd garddwriaeth, blodeuwriaeth, gofalu am anifeiliaid bach ac astudiaethau o geffylau. Mae ei weithgareddau arbenigol yn denu myfyrwyr o bob rhan o Gymru a gogledd-orllewin Lloegr.

Er nad yw Coleg Glannau Dyfrdwy wedi'i leoli yn Nelyn, mae ei brif gampws gerllaw yn Connah's Quay ynghyd â champws arall yn yr Wyddgrug. Mae'r coleg yn cynnig amrywiaeth eang o ddarpariaeth addysg bellach ac mae'n gwneud gwaith all ymestyn yn y gymuned, gan gynnwys ysgolion lleol megis Ysgol Uwchradd Argoed, yr Wyddgrug.

Mae modd i drigolion Delyn deithio o'u hardal leol i astudio ac maent yn gwneud hynny. Yn wir, mae pob coleg addysg bellach yng ngogledd Cymru yn denu cyfran o'i fyfyrwyr o ardal ehangach Sir y Fflint. Mae'r ffigurau diweddaraf (2000-01) yn awgrymu bod y cyfraddau o fyfyrwyr o Sir y Fflint mewn colegau y tu allan i Ddelyn a Glannau Dyfrdwy fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Coleg Menai (Bangor) | 0.4 y cant |
| Coleg Llandrillo (Llandrillo-yn-Rhos) | 4 y cant |
| Coleg Llysfasi (Rhuthun) | 8 y cant |
| Coleg Iâl (Wrecsam) | 12 y cant |

Y cyfraddau o fyfyrwyr o Sir y Fflint yng Ngholeg Garddwriaeth Cymru a Choleg Glannau Dyfrdwy yn yr un flwyddyn oedd 47 y cant a 52 y cant y naill a'r llall.

**Darpariaeth Addysg Bellach yng Nghymoedd y De**

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ehangu'r ddarpariaeth addysg bellach yng Nghymoedd y De? (WAQ26243)

**Jane Davidson:** Gallai ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg bellach yng Nghymoedd y De ehangu'r amrywiaeth o gyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r cymunedau a wasanaethir. Mae'r uno ym mis Ionawr rhwng Colegau Aberdâr a Phontypridd i greu Coleg Morgannwg wedi gwella'r ddarpariaeth all ymestyn a gallu'r coleg newydd i gynnig darpariaeth lefel mynediad ar bob safle. Cynigir rhagolygon cyffelyb gan yr uno arfaethedig rhwng Prifysgol Morgannwg a Choleg Addysg Bellach Merthyr Tudful. Megis gyda phob cynnig i uno, caiff hwn ei ystyried yn ofalus ar sail gallu arfaethedig y sefydliad unedig i ddarparu gwell gwasanaethau i ddysgwyr lleol ac i wella ystod y ddarpariaeth.

Mae prosiect y rhwydwaith dysgu ym mhum sir hen ardal Gwent a drawyd gwaethaf gan gau gweithfeydd Corus hefyd yn cynnig potensial i ehangu'r cyfleoedd dysgu addysg bellach yn sylweddol yn y Cymoedd dwyreiniol. Bydd yn cydgysylltu rhwydwaith o ddarparwyr dysgu ac, o ganlyniad, bydd yn darparu mynediad ledled yr ardal at ystod o gyfleoedd dysgu—o safon llythrennedd sylfaenol hyd at safon gradd fodiwlaidd, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, hyfforddiant wedi'i deilwrio'n benodol at anghenion cyflogwyr lleol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £9 miliwn i ddatblygu'r rhwydwaith.

**Cynyddu Cyllid i Ysgolion**

**Peter Black:** Faint o awdurdodau addysg lleol sydd wedi cynyddu cyllid i ysgolion 9.2 y cant neu fwy yn y flwyddyn ariannol hon? (WAQ26244) [R]

**Jane Davidson:** Mae'r wybodaeth am y cyllidebau addysg ac ysgolion a osodwyd gan awdurdodau lleol Cymru ar gyfer 2003-04 yn cael ei dilysu. Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf.

**Y Cynllun Buddsoddi Cyfalaf**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun buddsoddi cyfalaf? (WAQ26278)

**Jane Davidson:** Mae cynllun buddsoddi cyfalaf y Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn gymorth i ddatblygu prosiectau cyfalaf unigol a gynigir gan sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu eraill. Nod y cynllun yw datblygu a chynnal a chadw asedau'r rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn gwella ei allu i ymateb i anghenion dysgwyr ac i flaenoriaethau'r economi.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

### Y Cynllun Cyfrifon Cwmnïau

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun cyfrifon cwmnïau? (WAQ26279)

**Jane Davidson:** Cynllun peilot yw cynllun cyfrifon dysgu cwmnïau y Cyngor Cenedlaethol—ELWa sy'n annog cyflogwyr i fuddsoddi mewn dysgu. Nod y cynllun yw darparu hyblygrwydd ychwanegol yn y cymorth cyllido sydd ar gael drwy symud oddi wrth raglenni caeth tuag at weithredu drwy ddefnyddio fframwaith, tra'n parhau i gadw elfennau hanfodol atebolrwydd cyhoeddus.

Mae'r cynllun wedi'i anelu'n bennaf at fusnesau bach a chanolig eu maint ac mae iddo dair elfen: cyngor am ddim oddi wrth gynghorydd sgiliau i ganfod materion sy'n ymwneud â datblygu sgiliau; gweithgaredd datblygu arloesol ym maes rheoli; a chymorth i gael mynediad at raglenni prif ffrwd y cyngor.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

### Y Prosiect Ymateb yn Gyflym i Ddiweithdra

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y prosiect ymateb yn gyflym i ddiweithdra? (WAQ26280)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y prosiect ymateb i ddiweithdra? (WAQ26281)

**Jane Davidson:** Mae cynllun gweithredu'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa ar gyfer diweithdra yn darparu cymorth i unigolion sy'n colli eu swyddi neu sydd o dan rybudd y byddant yn colli eu swydd drwy eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ac i ailafael mewn cyflogaeth gynaliadwy cyn gyflymed â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cymorth hyfforddi a recriwtio, hyfforddiant galwedigaethol a chymorth arall i ddysgwyr. Ychwanegir at wariant y cyngor gan gyllid Ewropeaidd a chyllid o'r sector preifat ac mae hynny'n cynyddu cwmpas y cynllun.

Mae prosiect y cyngor i ymateb i ddiweithdra wedi ei fwriadu i ategu'r cynllun gweithredu ar gyfer diweithdra drwy ddarparu cymorth ychwanegol wedi'i dargedu at helpu gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi i gael gwaith arall.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

## Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Sgiliau Cigyddiaeth

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ganolfan ragoriaeth ar gyfer sgiliau cigyddiaeth? (WAQ26282)

**Jane Davidson:** Mae prosiect canolfan ragoriaeth ar gyfer sgiliau cigyddiaeth y Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi ei fwriadu i ddarparu cymorth i ddiwydiannau amaeth-dwristiaeth yn y Canolbarth drwy sefydlu canolfan ar gyfer sgiliau cigyddiaeth ac arlwyo. Mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant lleol priodol er mwyn hybu rhagolygon cyflogaeth sectorau yr effeithiwyd arnynt gan epidemig clwy'r traed a'r genau.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

## Prosiect Sbardun Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiect Sbardun Cymru? (WAQ26283)

**Jane Davidson:** Mae Sbardun Cymru yn rhan o gorff drwy'r DU gyfan sy'n hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiannau lletygarwch, hamdden, teithio a thwristiaeth. Mae prosiect y Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn darparu cymorth i ysgolion, colegau a phartneriaid eraill i ddenu unigolion o bob oedran i mewn i'r sector. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn meithrin dealltwriaeth o'r rhagolygon gyrfaol priodol drwy ddiwrnodau 'blasu' a chyngor a chyfarwyddyd.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

## Prosiect Addysg Berthnasol i Waith (Sectorau)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y prosiect Addysg Berthnasol i Waith (Sectorau)? (WAQ26284)

**Jane Davidson:** Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi rhoi cyfraniad tuag at y prosiect Ewropeaidd hwn a fwriadwyd i ymdrin â gwendidau mewn lleoliadau gwaith yn y diwydiannau electroneg, cerbydau ac awyrofod drwy ddynodi a datblygu'r sgiliau personol trosglwyddadwy a generig y mae eu hangen ar weithwyr er mwyn iddynt allu rhoi addysg berthnasol i waith i recriwtiaid newydd.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

## Prosiect y Fenter Sector Gwirfoddol

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiect y fenter sector gwirfoddol? (WAQ26285)

**Jane Davidson:** Yr oedd prosiect menter sector gwirfoddol y Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn golygu gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn ne-orllewin Cymru. Ei nod oedd hyrwyddo hyfforddiant a datblygiad personol a chreu cyfleoedd cyflogadwyedd a dysgu anffurfiol i unigolion sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac unigolion difreintiedig. Yr oedd y prosiect hefyd yn anelu at gynyddu gwybodaeth a sgiliau unigolion sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

**Prosiect Datblygu'r Sector Gwirfoddol**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiect datblygu'r sector gwirfoddol? (WAQ26286)

**Jane Davidson:** Nod prosiect datblygu'r sector gwirfoddol y Cyngor Cenedlaethol—ELWa oedd diwallu anghenion hyfforddi mudiadau gwirfoddol yng nghanolbarth Cymru drwy ddarparu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddatblygu eu gweithgareddau yn effeithiol. Drwy hynny, byddai'r sector yn gallu cael yr effaith fwyaf posibl. Yr oedd yr hyfforddiant sgiliau yn cynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sgiliau rheoli, rheolaeth ariannol a chynllunio busnes.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

**Prosiect Sirius**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiect Sirius? (WAQ26287)

**Jane Davidson;** Nod prosiect Sirius y Cyngor Cenedlaethol—ELWa oedd cyflwyno dulliau newydd o reoli a threfnu busnesau drwy hyfforddiant hyblyg, wedi'i deilwrio'n bwrpasol, ar gyfer rheolwyr lefel ganol ac uwch. Câi'r hyfforddiant hwnnw ei ddarparu drwy weithdai manwl a hyfforddiant rheoli dwys. Nod y prosiect oedd helpu busnesau i ddatblygu eu sylfaen cwsmeriaid ac i ymateb yn effeithiol i ddisgwyliadau cwsmeriaid.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

**Y Cynllun Systemau Gwybodaeth Reoli**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun systemau gwybodaeth reoli? (WAQ26288)

**Jane Davidson:** Datblygwyd cynllun systemau gwybodaeth reoli y Cyngor Cenedlaethol—ELWa gyda'r nod o wella ansawdd a chwmpas y cronfeydd data sy'n cynnal gweithgareddau'r cyngor. Mae'r cynllun yn galluogi darparwyr dysgu i geisio cymorth i brynu a gosod fersiynau uwchraddio o systemau gwybodaeth reoli neu systemau newydd. Mae hefyd yn fodd o brynu caledwedd newydd, ynghyd â'r hyfforddiant technegol sydd ei angen i ddefnyddio'r system.

Gyda phob cynllun a phrosiect o fewn rhaglen arloesi a datblygu'r cyngor sy'n mynd y tu hwnt i'w derfynau dirprwyedig, rhaid i'r cyngor geisio cymeradwyaeth y Cynulliad cyn ymrwymo i unrhyw ymrwymiadau ariannol neu ymrwymiadau eraill. Ym mhob ffordd arall, materion gweithredol i'r cyngor yw manylion prosiectau unigol.

### Ffioedd Ychwanegol

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut yr effeithir ar ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i wrthwynebu ffioedd ychwanegol wrth uno Swyddfa Cymru â'r Adran Materion Cyfansoddiadol newydd? (WAQ26296)

**Jane Davidson:** Ni fydd unrhyw newidiadau i adrannau Llywodraeth y DU yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar addewid Llywodraeth y Cynulliad na cheir unrhyw ffioedd ychwanegol yn ystod oes yr ail Gynulliad. Yr wyf yn parhau â thrafodaethau manwl, sy'n mynd rhagddynt yn dda, gyda Charles Clarke a Peter Hain ynglŷn â'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol sydd ei angen i wireddu'r addewid hon.

### Sianel Deledu Ddigidol ar gyfer Athrawon

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa ran y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chwarae yng ngwaith Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth y DU i ddatblygu sianel deledu ddigidol ar gyfer athrawon? (WAQ26370)

**Jane Davidson:** Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wrthi ar hyn o bryd yn ystyried cynigion i ddarparu'r sianel gyda golwg ar lansio peilot yn yr hydref eleni. Byddwn yn dilyn hynt y peilot ac yn ystyried sut i'w gymhwyso i Gymru. Bydd yn rhaid pwyso a mesur unrhyw benderfyniad yn erbyn y gofynion eraill ar y gyllideb addysg.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Rêp Hadau Olew a Addaswyd yn Enetig

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn ychwanegol i ateb y Gweinidog parthed WAQ25707, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o hectarau a ddefnyddiwyd yn ystod treialon cyfyngedig ar amrywiaeth o rêp hadau olew a addaswyd yn enetig? (WAQ26275) [W]

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn ychwanegol i ateb y Gweinidog parthed WAQ25707, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar beth yn union ddigwyddodd i gynhaeaf y treialon cyfyngedig ar amrywiaeth o rêp hadau olew a addaswyd yn enetig? (WAQ26276) [W]

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn ychwanegol i ateb y Gweinidog parthed WAQ25707, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr asesiadau a gafodd eu gwneud er mwyn darganfod unrhyw dystiolaeth o groeshalogi o ganlyniad i'r treialon cyfyngedig ar amrywiaeth o rêp hadau olew a addaswyd yn enetig? (WAQ26277) [W]

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Yr oedd arwynebedd y caeau a ddefnyddiwyd ar gyfer treialon addasu genetig yn Fferm Whitehouse, Castell-meirch, Sir Fynwy, fel a ganlyn:

- 14.98 ha yn 1997
- 18.4 ha yn 1998.

Cafodd y cnwd ei gynaeafu a'r hadau eu cludo ar hyd y ffordd mewn bagiau wedi'u selio i safle malu hadau arbenigol lle y tynnwyd yr olew ohonynt. Cafodd yr olew a'r cêc ei ddychwelyd i'r ymgeiswyr i gynnal profion arnynt i weld pa ddefnydd diwydiannol y gellid ei wneud ohonynt. Nid aeth dim o'r deunyddiau a gynaeafwyd yn ôl i mewn i'r gadwyn fwyd na'r gadwyn borthiant.

Yr oedd ffeil y cais yn cynnwys asesiad o'r dystiolaeth ynghylch y peryglon sy'n gysylltiedig â chroes-beillio rhwng rêp a addaswyd yn enetig a chnydau a chwyn cyfatebol o ran rhyw.

Dyma'r camau a gymerwyd i atal croes-heintio rhag digwydd:

- pellter gwahanu o 50m o leiaf oddi wrth gnydau rêp olew hadau masnachol (yr oedd y pellter yn 400m o leiaf ar Fferm Whitehouse yn 1997)
- eu trin yn ofalus wrth eu cynaeafu a'u cludo rhag gollwng unrhyw hadau
- glanhau peiriannau'r fferm yn drylwyr a
- rheoli unrhyw blanhigion rêp sy'n tyfu yn y cnydau grawnfwyd dilynol am ddwy flynedd arall.

Yr oedd yn ofynnol i'r ymgeisydd fonitro'r hyn a ryddheir. Yn ogystal, yr oedd astudiaethau a ariannwyd gan Adran yr Amgylchedd ar y pryd (yr Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn ddiweddarach) yn monitro'r llif o ran genynnau yn un rhan o'r safleoedd rêp a addaswyd yn enetig a gymeradwywyd, yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn gwerthuso'r asesiadau o risg.

### Fforwm Gwiwerod Coch Cymru

**Glyn Davies:** Pwy sydd ar fforwm gwiwerod coch Cymru, sawl gwaith y mae wedi cwrdd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a phryd y mae'n bwriadu cwrdd nesaf? (WAQ26312)

**Carwyn Jones:** Mae'r fforwm hwn yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a chymdeithasau cysylltiol, ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, y Cynulliad Cenedlaethol drwy'r is-adran datblygu bwyd a ffermio, prosiect gwiwerod coch Ynys Môn (Menter Môn) a grwpiau lleol eraill sydd â buddiant. Mae'r fforwm wedi cwrdd ddwywaith dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae disgwyl iddo gwrdd eto cyn diwedd yr haf, er nad oes dyddiad pendant wedi ei bennu.

### Cymorthdaliadau Amaethyddol

**Brynle Williams:** Pan delir cymorthdaliadau amaethyddol ar ôl y cyfnod talu penodol, a wnaiff y Gweinidog amlinellu a oes angen cadw at reolau Ewropeaidd ar brosesu drwy gyfrwng cyfrifiadur? (WAQ26367)

**Carwyn Jones:** Rhaid cadw at yr holl reolau sy'n pennu sut y telir cymorthdaliadau amaethyddol yr UE pa un a yw hynny yn ystod neu ar ôl y cyfnod talu perthnasol.

### Talu Cymorthdaliadau Amaethyddol

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r drefn ar gyfer talu cymorthdaliadau amaethyddol pan na chedwir at y cyfnod talu penodol a bennir gan Ewrop? (WAQ26368)

**Carwyn Jones:** Nid oes unrhyw wahaniaethau yn y drefn ar gyfer talu cymorthdaliadau amaethyddol pan wneir hynny ar ôl y cyfnodau talu perthnasol.

### Cymorthdaliadau Amaethyddol (Cronfeydd Cynulliad Cymru)

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog esbonio a yw cymorthdaliadau amaethyddol yn cael eu talu o gronfeydd Cynulliad Cymru yn hytrach nag o gronfeydd Ewrop os nad ydynt yn cael eu talu o fewn y cyfnod talu penodol? (WAQ26369)

**Carwyn Jones:** Nid yw cymorthdaliadau amaethyddol Ewropeaidd yn cael eu talu o gronfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru os nad yw'r taliadau wedi cael eu gwneud o fewn cyfnod talu perthnasol yr UE.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Adolygiad Wanless

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt y gwaith sy'n deillio o Adolygiad Wanless mewn perthynas â dyfodol y GIG yng Nghymru? (WAQ26245)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr ydym wedi derbyn yr adroddiad a byddwn yn ei gyhoeddi cyn gwyliau'r haf.

### Ysbyty Cymuned Newydd ym Merthyr Tudful

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu ysbyty cymuned newydd ym Merthyr Tudful? (WAQ26246)

**Jane Hutt:** Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i'r ysbyty cymuned newydd ym Merthyr Tudful ar 16 Ebrill 2003. Deallaf fod y prisiwr dosbarth yn trafod gwerth y safle gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar hyn o bryd. Mae'r cyfweliadau gyda'r tîm dylunio wedi cael eu cwblhau ac 1 Awst 2005 yw'r dyddiad dechrau disgwyliedig, gyda'r gwaith i'w gwblhau ym mis Hydref 2007.

### Anafiadau a Achosir gan Wydrau Bariau a Photeli

**Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am anafiadau a achosir gan wydrau sy'n cael eu rhoi i bobl mewn bariau, a chan boteli? (WAQ26247)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn sylweddoli bod hwn yn fater difrifol yng Nghymru ac yn cydnabod bod yna bryderon ynglŷn â'r berthynas rhwng anafiadau o'r fath a goryfed. I'r perwyl hwnnw, mae strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru yn darparu ffordd o fynd i'r afael â'r broblem hon. Er enghraifft, mae'r strategaeth yn cydnabod bod ymddygiad ymosodol yn gysylltiedig ag alcohol yn aml yn arwain at anafiadau i'r wyneb yn sgîl defnyddio gwydrau a photeli fel arfau. Er mwyn atal trais o'r fath, mae'r strategaeth yn annog rhoi hyfforddiant i staff bar, ac y dylai'r hyfforddiant gynnwys rhagor o addysg ynglŷn â pheryglon camddefnyddio alcohol. Yn ogystal, mae'n cefnogi ymdrechion drwy'r DU i wella diogelwch mewn tai trwyddedig ac yn eu cyffiniau.

Mae grŵp atal trais Caerdydd, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Jonathan Shepherd, pennaeth llawfeddygaeth y geg, y genau a'r wyneb yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, hefyd wedi cynnal ymchwil i effeithiau goryfed alcohol ar drais a sut y gall defnyddio gwydrau plastig mewn tai trwyddedig ostwng nifer yr anafiadau a achosir yn aml. Mae'r grŵp yn ceisio codi proffil y materion hyn ac mae'n enghraifft glir o'r sector iechyd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith i ostwng lefel troseddu.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi cyllido menter blismona wedi'i thargedu i fynd i'r afael â'r math hwn o droseddu yng nghanol Dinas Caerdydd. Derbyniodd y fenter i dargedu troseddau ar y stryd sy'n gysylltiedig ag alcohol , dros £750,000 o gyllid gan y Swyddfa Gartref.

### Hybu Iechyd y Cyhoedd yn Ardal Rhondda Cynon Taf

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu iechyd y cyhoedd yn ardal Rhondda Cynon Taf? (WAQ26248)

**Jane Hutt:** Yn Rhondda Cynon Taf, megis mewn mannau eraill yng Nghymru, mae'r staff hybu iechyd wedi'u lleoli o fewn y byrddau iechyd lleol ac maent yn rhan o Wasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd dros Gymru. Bydd y rhaglen waith bresennol o fewn Rhondda Cynon Taf yn cael ei hadolygu ymhen amser yng ngoleuni'r strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles gaiff ei datblygu gan y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill, a'r blaenoriaethau a'r rhaglenni cenedlaethol mewn

perthynas â hybu iechyd. Mae gwaith cynghrair iechyd Rhondda Cynon Taf yn cael ei integreiddio i mewn i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith hybu iechyd yn Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu ystod o raglenni, gan gynnwys y rheini sy'n ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd, rhoi'r gorau i ysmygu, iechyd rhywiol, iechyd plant a datblygu iechyd cymuned. Daw'r cyllid ar gyfer y rhain o amryw o ffynonellau, gan gynnwys grantiau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r gronfa cyfleoedd newydd. Ar hyn o bryd mae 20 o ysgolion o fewn Rhondda Cynon Taf wedi'u cynnwys yn rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach.

### Yr Ysbyty Newydd yn Llwynypia

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllunio sy'n mynd rhagddo ar gyfer yr ysbyty newydd yn Llwynypia? (WAQ26249)

**Jane Hutt:** Ni allaf ychwanegu unrhyw beth o sylwedd at fy ateb i WAQ24222 a roddwyd ar 22 Mai. Yr ydym yn dal i ragweld y bydd y dylunio a'r symudiad i fod yn barod i ddechrau gweithio ar safle ysbyty cymuned newydd y Rhondda yn cymryd rhyw flwyddyn yn fras. Bydd y gwaith adeiladu yn cymryd dwy flynedd.

### Clefydau a Drosglwyddir yn Rhywiol

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr achosion o glefydau a drosglwyddir yn rhywiol yng Nghymru? (WAQ26250)

**Jane Hutt:** Mae clefydau a drosglwyddir yn rhywiol yn effeithio ar bobl o bob oed yng Nghymru, ond maent yn fwyaf cyffredin ymysg pobl ifanc o dan 25 oed. Yn 2001, defaid ar yr organau cenhedlu oedd y math mwyaf cyffredin o haint a drosglwyddir yn rhywiol i gael ei ddiagnosio yng Nghymru gyda ychydig dros 3,300 o ddiagnosau newydd (cynnydd o 3 y cant o'i gymharu â 2000). Parhaodd nifer yr achosion o glamydia a oedd yn cael eu diagnosio i gynyddu, gyda chynnydd o 16 y cant i ychydig llai na 2,800. Mae'r cyfraddau wedi mwy na dyblu er 1995. (Efallai fod y cynnydd hwn mewn diagnosio clamydia i'w briodoli'n rhannol i fwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol a mwy o brofion a phrofion mwy sensitif.) O ran gonorrhoea, ers y bu gostyngiad yn nifer y diagnosau rhwng 2000 a 2001 (i lawr 9 y cant i ychydig dros 400), bu'r duedd gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf ar i fyny, ac mae'r niferoedd ddwywaith cyn uched ag oeddynt yn 1995. Mae nifer yr achosion o HIV a ddiagnoswyd yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf gan gyrraedd uchafbwynt o 64 o achosion newydd yn 2001 o'i gymharu â 46 yn 1995. Bu 48 o achosion newydd yn 2002.

Mae gostwng cyfraddau'r heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn amcan allweddol yn y fframwaith strategol i hybu iechyd rhywiol yng Nghymru. Mae'r gweithredu i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys ymgyrch addysg gyhoeddus barhaus sydd wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o heintiau cyffredin a drosglwyddir yn rhywiol ymysg pobl ifanc; rhaglen hybu iechyd HIV wedi'i thargedu at ddynion hoyw yng Nghymru; galluogi mwy o bobl i fanteisio ar gondomau am ddim drwy gynllun grant i ariannu darpariaeth gwasanaeth iechyd rhyw arloesol i bobl ifanc; a dyrannu £1.7 miliwn dros y tair blynedd diwethaf er mwyn helpu i roi strategaethau iechyd rhyw lleol ar waith.

### Darparu Gwasanaethau Clywedeg

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ddarparu gwasanaethau clywedeg yng Nghymru? (WAQ26252)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyllido'r prosiect i foderneiddio'r gwasanaethau clywedeg yng Nghymru. Prif amcan y prosiect oedd gwella'r seilwaith a sgiliau staff yn adrannau cymhorthion clyw y GIG yn ystod 2001-02. Cydnabuwyd bod gwelliannau o'r fath yn gwbl angenrheidiol er mwyn gallu gosod cymhorthion clyw sy'n defnyddio technoleg uwch (yn cynnwys cymhorthion clyw digidol) ym mhob adran glywedeg yng Nghymru. Daethpwyd â'r prosiect i ben yn

ffurfiol ym mis Medi 2002, ac yntau wedi cyflawni pob un o'i amcanion. Yr oedd pob ymddiriedolaeth yn gallu cynnig ffitio cymhorthion clyw digidol i gleifion o fis Medi 2002.

Ers y cyhoeddiad fod cymhorthion clyw sy'n defnyddio technoleg newydd ar gael, bu galw sylweddol am ailasesiad o du'r rhai oedd yn defnyddio cymhorthion clyw yn barod ac am asesiad cychwynnol oddi wrth ddefnyddwyr newydd posibl. O ganlyniad, mae'r rhestr aros am apwyntiadau wedi parhau i gynyddu.

Dyrannodd y Cynulliad £1.7 miliwn ym mis Ebrill 2002 i'r awdurdodau lleol i gael ei ddosbarthu ymysg ymddiriedolaethau GIG Cymru i dalu am gost prynu cymhorthion clyw digidol i'w poblogaethau preswyl yn ystod blwyddyn ariannol 2002-03. Mae Cyflenwadau Iechyd Cymru wedi sicrhau bod yr ymddiriedolaethau yn gallu prynu cymhorthion clyw digidol am brisiau cystadleuol iawn. Mae'r cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi cynyddu i £2.414 miliwn ac mae hwn eisoes wedi cael ei ddyrannu i'r byrddau iechyd lleol.

Mae'r arian hwn i gael ei ddefnyddio hefyd i recriwtio awdiolegwyr o fewn yr ymddiriedolaethau er mwyn ymdopi â'r cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau clywedeg. Cydnabyddir bod prinder awdiolegwyr hyfforddedig drwy'r wlad ac o'r herwydd bu'n anodd recriwtio. I frwydro yn erbyn hynny, mae'r Cynulliad yn darparu cyllid ar gyfer hyd at 13 o raddedigion i ddilyn rhaglen hyfforddi garlam mewn clywedeg. Caiff y myfyrwyr hyn eu recriwtio gan yr ymddiriedolaethau a byddant yn ymgymhwyso yn 2004 a 2005, yn hytrach na'r cyfnod hyfforddi pedair blynedd sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**Cymhellion Ariannol sydd ar gael i Feddygon Teulu**

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth am y cymhellion ariannol sydd ar gael i feddygon teulu weithio yng Nghymru? (WAQ26253)

**Jane Hutt:** Mae'r cymhellion ariannol perthnasol sydd ar gael i feddygon teulu i weithio yng Nghymru eisoes wedi cael cyhoeddusrwydd da drwy'r cyfryngau. Mae Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru, y corff sy'n cynrychioli'r meddygon teulu, hefyd yn gwbl ymwybodol o'r cymhellion sydd ar gael ac mae'n sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei lledaenu'n eang. Ym mis Mawrth eleni cyhoeddais fod y cynlluniau 'helo euraid' a 'diolch euraid' i gael eu hymestyn a bod cynllun i feddygon teulu sy'n dychwelyd i weithio i gael ei gyflwyno, ac mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i'r cynlluniau hyn unwaith y cânt eu gweithredu.

**Pobl Ifanc sy'n Dioddef o ME**

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n dioddef o ME? (WAQ26254)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod syndrom blinder cronig/enseffalomyelitis myalgig yn gyflwr sy'n gallu gwanhau a pheri gofid a'i fod yn effeithio ar nifer fawr o bobl ifanc. Yr ydym yn awyddus i weld cynnydd ym maes syndrom blinder cronig/enseffalomyelitis myalgig ac yr ydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto. Dylem ganolbwyntio ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion cleifion ifanc, ac ar driniaeth ac ailsefydlu. Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n dioddef o syndrom blinder cronig ac enseffalomyelitis myalgig (ME). Mater i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar sail eu barn glinigol yw penderfynu ynghylch triniaeth, mewn ymgynghoriad â'u cleifion.

**Amseroedd Aros ar gyfer Triniaeth Orthopedig yng Ngwent**

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno adroddiad am y sefyllfa mewn perthynas ag amseroedd aros ar gyfer triniaeth orthopedig yng Ngwent? (WAQ26255)

**Jane Hutt:** Gwnaed cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Dengys y ffigurau aros am ddiwedd Ebrill nad oedd unrhyw gleifion yn disgwyl mwy na 18 mis am driniaeth orthopedig yng Ngwent.

Cynhaliodd yr Athro Brian Edwards adolygiad o'r amseroedd aros o fewn yr ymddiriedolaeth am driniaeth orthopedig. Rhoddais innau adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ganfyddiadau'r Athro Edwards ar 26 Chwefror. Datblygodd y gweithgor orthopedeg gyfres o argymhellion wedyn er mwyn cael effaith fuan, tra'n pwysleisio pwysigrwydd ymdriniaeth gynaliadwy, fesul cam, dros gyfnod hwy. Yn gefn i'r argymhellion hyn, sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r Athro Edwards, rhwymais innau ffrwd gynllunio reolaidd o £5 miliwn.

## Prinder Radiograffyddion

**Peter Black:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r ffaith bod prinder radiograffyddion yng Nghymru? (WAQ26256)

**Jane Hutt:** Mae nifer y radiograffyddion sy'n gweithio yn GIG Cymru wedi cynyddu o 780 yn 1997 i 830 yn 2002 (y flwyddyn olaf y mae ffigurau sydd wedi'u dilysu ar gael amdani). Mae'r niferoedd sy'n cael hyfforddiant radiograffeg wedi cynyddu o 96 yn 1997 i 205 yn 2003 i helpu i ddiwallu'r angen am ragor o staff, fel y'i nodir yng nghynlluniau gweithlu blynyddol ymddiriedolaethau'r GIG.

Yr ydym wedi sefydlu is-grŵp recriwtio a chadw radiograffyddion, sy'n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol, i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion recriwtio a chadw o bwys o fewn y proffesiwn. Un flaenoriaeth a nodwyd gan y grŵp yw denu'r radiograffyddion hynny nad ydynt yn ymarfer mwyach yn ôl i GIG Cymru. Datblygwyd adnoddau wedyn ar gyfer rheolwyr â'r rhai oedd yn dychwelyd i weithio a chyflwynwyd pecyn dysgu o bell mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch ac eraill. Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus yn gynharach yn y flwyddyn, mae'r grŵp yn cwrdd eto ar 30 Mehefin i edrych ar y niferoedd sydd wedi dychwelyd hyd yma neu sydd wedi ymgeisio am gyrsiau dychwelyd i ymarfer.

Yr ydym hefyd yn rhoi ystyriaeth drylwyr i'r posibilrwydd o recriwtio radiograffyddion o dramor sydd â chymwysterau addas.

## Presgripsiynau am Ddim

**Michael German:** Beth sy'n cael ei wneud i weithredu ar y penderfyniad a wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol i gynnig presgripsiynau am ddim i bobl sy'n dioddef o salwch hir dymor cronig? (WAQ26257)

**Jane Hutt:** Fel yr addawyd yn ein maniffesto, byddwn yn dileu'r holl daliadau presgripsiwn i holl bobl Cymru yn ystod tymor y Llywodraeth hon yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r swyddogion wrthi'n gweithio ar opsiynau gweithredu ar hyn o bryd a byddant yn cyflwyno cynigion imi yn fuan.

## Adolygiad Arfaethedig o Wasanaethau Niwroleg

**Jonathan Morgan:** Beth yw manylion yr adolygiad arfaethedig o wasanaethau niwroleg yng Nghymru? (WAQ26258)

**Jane Hutt:** Cytunodd bwrdd comisiynu cenedlaethol Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin i gynnal adolygiad o'r niwrowyddorau, sy'n cwmpasu niwroleg. Caiff yr adolygiad hwn ei arwain gan arbenigwyr a'i gadeirio gan gadeirydd annibynnol a fydd yn dderbyniol i bob parti sy'n ymwneud â'r adolygiad. Mae'n debygol o bara sawl mis.

## Fformiwla Townsend

**David Lloyd:** Sut y mae'r Gweinidog wedi sicrhau na fydd unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol yn cael llai o gymorth ariannol yn sgîl gweithredu fformiwla Townsend? (WAQ26261) [R]

**Jane Hutt:** Yr ydym yn symud tuag at roi'r fformiwla anghenion arbennig ar waith yng nghyswllt gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau iechyd cymuned. O 2003-04, bydd pob ardal yn derbyn lefel ddigonol o dwf ar gyfer chwyddiant a datblygiadau gwasanaeth y rhoddir blaenoriaeth iddynt, gyda'r ardaloedd sy'n fwyaf eu hangen o dan y fformiwla yn derbyn adnoddau ychwanegol. Yn 2003-04, mae'r cyllid ychwanegol yn £10.2 miliwn ar gyfer 10 bwrdd iechyd lleol. Gall Byrddau Iechyd Lleol eraill wneud cais am gyfran o £1 miliwn ychwanegol, a neilltuwyd ar gyfer gweithredu a dargedir at anghydraddoldebau iechyd. Gwerthusir yr holl arian a gaiff ei wario sydd wedi ei dargedu at anghydraddoldebau iechyd. Mae'r Pwyllgor Sefydlog ar Ddyrannu Adnoddau, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Peter Townsend, yn dal i roi cyngor imi ynglŷn â'r materion sy'n gysylltiedig â rhoi'r fformiwla anghenion uniongyrchol ar waith.

## Ysbyty Ymddiriedolaeth Sefydledig

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y gofelir am fuddiannau cleifion Cymru sy'n cael triniaeth yn yr ysbyty ymddiriedolaeth sefydledig arfaethedig? (WAQ26262) [R]

**Jane Hutt:** Er y byddai ymddiriedolaethau sefydledig y GIG wedi cael eu hawdurdodi i ddarparu nwyddau a gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yn Lloegr, ni fyddai hynny yn eu rhwystro rhag darparu gwasanaethau i gleifion o'r tu allan i Loegr.

Ar hyn o bryd, mae cleifion o Gymru yn cael triniaeth yn Lloegr, fel y gwna cleifion o Loegr yng Nghymru, drwy drefniadau o'r naill ochr a'r llall a ddatblygwyd rhwng ysbytai a chyrff comisiynu yn unol ag amgylchiadau daearyddol, gan mwyaf. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i wasanaethau eilaidd a thrydyddol.

Ni ddisgwylir i'r trefniant sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng cyrff comisiynu yng Nghymru ac ymddiriedolaethau yn Lloegr sy'n derbyn cleifion o Gymru newid pan fydd cyrff yn Lloegr yn ennill statws ymddiriedolaeth sefydledig. Bydd buddiannau cleifion o Gymru sy'n cael eu trin yn Lloegr, boed hynny gan ymddiriedolaethau neu ymddiriedolaethau sefydledig, yn cael eu diogelu gan gymalau yn y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cwmpasu, ymysg materion eraill, y dyletswydd i gydweithredu rhwng cyrff GIG, ansawdd o fewn gofal iechyd a'r trefniadau i arolygu ac adolygu ymddiriedolaethau sefydledig a'u gwasanaethau.

## ASH yng Nghymru

**Kirsty Williams:** Pryd y bydd yr arian a gafodd ei addo yn gynharach eleni i ASH yng Nghymru'n cael ei ryddhau i'r corff? (WAQ26302)

**Jane Hutt:** Daw contract cyfredol ASH yng Nghymru gyda'r Cynulliad i ben ar 30 Mehefin 2003. Bydd y cyfnod grant newydd yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2003 a gwneir y taliad cyntaf yn ystod mis Gorffennaf.

## Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar record Sir Gaerfyrddin o ran oedi wrth drosglwyddo gofal? (WAQ26305)

**Jane Hutt:** Ers cyflwyno cronfa ddata y cyfrifiad oedi o ran trosglwyddo gofal ym mis Ebrill 2002, mae'r ffigurau i drigolion Sir Gaerfyrddin wedi amrywio rhwng 78 a 114.

Dengys y tabl isod y lefelau oedi rhwng mis Tachwedd 2002 a mis Mai 2003 yn ôl categori bras y rheswm am yr oedi:

| | Cyfanswm Gofal Cymdeithasol | Cyfanswm Iechyd | Cyfanswm Anghydfod/ Arall/ Dewis | Cyfansymiau Oedi |
|---|---|---|---|---|
| **Tach-02** | 66 | 20 | 26 | **112** |
| **Rhaf-02** | 61 | 17 | 15 | **93** |
| **Ion-03** | 49 | 20 | 15 | **84** |
| **Chwe-03** | 50 | 21 | 17 | **88** |
| **Maw-03** | 65 | 23 | 24 | **112** |
| **Epr-03** | 41 | 23 | 16 | **80** |
| **Mai-03** | 48 | 22 | 19 | **89** |

Mae'r lefelau oedi o ran trosglwyddo gofal yn Sir Gaerfyrddin yn y chwartel uchaf yng Nghymru o'u cymharu â maint y boblogaeth breswyl drwyddi draw a'r boblogaeth 75 oed a throsodd.

### Nifer y Gwelyau Ysbyty a Ddefnyddir

**Rhodri Glyn Thomas:** Beth yw'r safon genedlaethol ofynnol ar gyfer nifer y gwelyau ysbyty a ddefnyddir, a sawl ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru sy'n bodloni'r safon honno? (WAQ26306)

**Jane Hutt:** Y lefel a argymhellir o ran defnyddio gwelyau ysbyty, yr ydym yn gweithio tuag ati ar hyn o bryd yng Nghymru, yw 85 y cant. Mae lefel y defnydd o fewn meddygaeth gyffredinol a meddygaeth yr henoed yng Nghymru yn 91.6 y cant. Mae gwaith ar y gweill i wneud gwell defnydd eto o'r gallu yng Nghymru drwy ymdriniaeth systemau-cyfan, yn canolbwyntio ar gyfuniad o reolaeth gaeth, arferion gorau a gallu cyfatebol ychwanegol er mwyn cyrraedd y lefel a argymhellir.

### Ffisiotherapyddion, Ceiropodyddion a Deietegwyr yn y GIG

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ffisiotherapyddion, ceiropodyddion a deietegwyr y mae GIG Cymru'n eu cyflogi, a nodi faint ohonynt a gyflogir drwy asiantaethau? (WAQ26307)

**Jane Hutt:** Ym mis Medi 2002 yr oedd 852 o ffisiotherapyddion cymwysedig, 215 o geiropodyddion cymwysedig a 189 o ddietegwyr cymwysedig yn cael eu cyflogi yn y GIG yng Nghymru. Rhoddir y niferoedd ar ffurf swyddi sy'n gyfwerth â rhai amser llawn.

Defnyddir staff asiantaeth i lenwi bylchau lle ceir swyddi gwag ac anghenion staffio brys ac nid yw'r rhain yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG. Er nad oes gwybodaeth wedi ei chasglu yn y gorffennol am nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir o fewn proffesiynau sydd yn gysylltiedig â iechyd, mae gofyn i'r ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol ddarparu'r wybodaeth hon am y tro cyntaf fel rhan o ymarferiad casglu data cynllunio'r gweithlu 2003, sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

### Ffisiotherapyddion, Ceiropodyddion a Deietegwyr Newydd eu Recriwtio

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ffisiotherapyddion, ceiropodyddion a deietegwyr newydd y mae'r GIG wedi'u recriwtio eleni, a nodi faint ohonynt a recriwtiwyd fel staff asiantaeth? (WAQ26308)

**Jane Hutt:** Cynyddodd nifer y ffisiotherapyddion cymwysedig cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru o 818 ym mis Medi 2001 i 852 ym mis Medi 2002, cynnydd o 5 y cant. Dros yr un cyfnod, cynyddodd y ceiropodyddion cymwysedig o 206 i 215 (4 y cant) a'r deietegwyr cymwysedig o 177 i 189 (7 y cant).

Mae ein strategaethau recriwtio a chadw, yn lleol ac ar lefel Cymru gyfan, ynghyd â'n buddsoddiad sylweddol yn addysg a hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn arwain at lefelau staffio uwch ac at ostyngiad cyffredinol yn lefel y swyddi gwag o fewn GIG Cymru.

Defnyddir staff asiantaeth i lenwi bylchau lle ceir swyddi gwag ac anghenion staffio brys ac nid yw'r rhain yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG. Er nad oes gwybodaeth am nifer y staff asiantaeth a ddefnyddir o fewn proffesiynau sydd yn gysylltiedig â iechyd wedi ei chasglu yn y gorffennol, mae gofyn i'r ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol roi'r wybodaeth hon am y tro cyntaf fel rhan o ymarferiad casglu data cynllunio'r gweithlu 2003, sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

### Swyddi Gwag ar gyfer Ffisiotherapyddion, Ceiropodyddion a Deietegwyr

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y swyddi ar gyfer ffisiotherapyddion, ceiropodyddion a deietegwyr sy'n wag yn GIG Cymru ar hyn o bryd, a nodi pa mor hir y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i lenwi swydd wag ym mhob un o'r proffesiynau hyn? (WAQ26309)

**Jane Hutt:** Dengys yr wybodaeth am swyddi gwag i staff GIG a gyhoeddwyd ym mis Mai 2003 fod 62.3 o swyddi gwag (6.5 y cant) cyfwerth ag amser llawn i ffisiotherapyddion cymwysedig ym mis Medi 2002, dwy swydd wag (0.9 y cant) cyfwerth ag amser llawn i geiropodyddion cymwysedig ac 19.5 o swyddi gwag (9.6 y cant) cyfwerth ag amser llawn i ddietegwyr cymwysedig yn y GIG yng Nghymru.

Mae'r swyddi gwag a nodir yn swyddi sydd wedi bod yn wag am dri mis neu fwy. Ni chedwir gwybodaeth i ddangos pa mor hir y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i lenwi swyddi ym mhob un o'r tri phroffesiwn.

### Cyllid i Ateb Gofynion Iechyd Pobl Cymoedd y De Ddwyrain

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu rhoi mwy o gyllid i ateb gofynion iechyd pobl Cymoedd y de ddwyrain? (WAQ26310)

**Jane Hutt:** At ddiben yr ateb hwn yr wyf wedi cymryd mai Cymoedd y De Ddwyrain yw'r ardaloedd hynny a wasanaethir yn bennaf gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent (h.y. hen ardal Awdurdod Iechyd Gwent).

Dechreuasom roi fformiwla Townsend ar waith, ar gyfer gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau iechyd cymuned o fis Ebrill 2003. Bydd ardal pob bwrdd iechyd lleol yn derbyn lefel ddigonol o dwf ar gyfer chwyddiant a datblygiadau gwasanaeth y rhoddir blaenoriaeth iddynt, a bydd yr ardaloedd sy'n fwyaf eu hangen o dan y fformiwla hefyd yn derbyn adnoddau ychwanegol. Derbyniodd pedwar o'r byrddau iechyd lleol yn yr ardal a wasanaethir gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent gyfanswm o £4.9 miliwn yn 2003-04. Yn y blynyddoedd i ddod, caiff lefel yr adnoddau ychwanegol, ac yn sgîl hynny y cynnydd a wneir ar weithredu cyfraddau targed y fformiwla yn llawn, ei phennu yn y cylchoedd blynyddol i gynllunio'r gyllideb.

### Y Bilsen Fore Trannoeth

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno mesurau newydd i ganiatáu i ferched ysgol uwchradd gael gafael ar y 'bilsen fore trannoeth' heb ganiatâd eu rhieni? (WAQ26311)

**Jane Hutt:** Gall menywod ifanc gael gafael ar dabledi atal cenhedlu hormonaidd heb ganiatâd eu rhieni drwy eu meddyg teulu neu glinig cynllunio teulu/iechyd rhyw lleol. Mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn caniatáu i bobl ifanc gymwys o dan 16 oed gydsynio i driniaeth feddygol ar yr amod eu bod yn deall yr hyn sy'n cael ei awgrymu a'i oblygiadau. Deallir cymhwysedd yn nhermau gallu'r claf i ddeall a chyfleu ei farn ei hun neu ei barn ei hun ynglŷn â dewisiadau a'u canlyniadau, gan gynnwys natur,

pwrpas a risg bosibl unrhyw driniaeth (neu ddiffyg triniaeth). Os asesir bod y person ifanc yn gymwys, nid yw caniatâd rhiant yn angenrheidiol.

Nid oes cynlluniau yng Nghymru ar hyn o bryd i dabledi atal cenhedlu hormonaidd brys fod ar gael o fewn ysgolion. Yn y DU, dim ond menywod dros 16 oed gaiff brynu tabledi atal cenhedlu hormonaidd brys yn uniongyrchol oddi wrth fferyllwyr.

### Arolygiaeth Safonau Gofal

**Peter Black:** Pa gamau y mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn eu cymryd i lunio safonau penodol ar gyfer cynlluniau chwarae yr haf a beth yw'r amserlen ar gyfer cwblhau gwaith o'r fath? (WAQ26313)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r rheoliadau a'r safonau perthnasol ar gyfer pob math o ofal dydd, gan gynnwys cynlluniau chwarae yr haf, yn barhaus, mewn ymgynghoriad â Chwarae Cymru a chyrff cynrychioladol cenedlaethol eraill. Mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, sy'n gweithredu o fewn y rheoliadau a'r safonau a bennir gan y Cynulliad, wedi rhoi canllawiau newydd i'w harolygwyr ynglŷn â chynlluniau chwarae yr haf. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â llawer o'r materion a godwyd gyda Llywodraeth y Cynulliad y llynedd. Darparwyd copïau o'r canllawiau hyn i'r sawl sydd â buddiant yn y mater.

### Pobl Hŷn yng Nghymru

**David Lloyd:** Ym mha ffordd y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod safbwynt pobl hŷn yn cael ei leisio yn ystod trafodaethau sy'n ymwneud â phobl hyn? (WAQ26355)

**Jane Hutt:** Un o nodau allweddol y strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yw gwella eu hymwneud â chymdeithas a'u cyfranogiad ynddi, ynghyd â gwella eu hymwneud a'u cyfranogiad ar bob lefel o lywodraeth. Byddwn yn sefydlu fforwm partneriaeth cenedlaethol ar gyfer bobl hyn er mwyn rhoi llais cryfach iddynt . Mae'r strategaeth yn galw hefyd ar bobl hyn i gyfrannu'n effeithiol tuag at amryw o faterion lleol ac yr ydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol ddynodi 'hyrwyddwr' dros bobl hyn er mwyn helpu i gyflawni hynny.

### Rhoi Gofal Nyrsio am Ddim

**David Lloyd:** Faint o nyrsys ac aelodau eraill o'u staff y mae GIG Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn eu cyflogi i asesu a yw'n briodol rhoi gofal nyrsio am ddim i bobl hyn mewn lleoliadau gofal tymor hir? (WAQ26356)

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad fesul blwyddyn o'r costau y mae GIG Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill wedi eu hysgwyddo i asesu gofynion gofal nyrsio pobl hŷn mewn sefyllfaoedd gofal tymor hir, a hynny ers cyflwyno gofal nyrsio am ddim yng Nghymru? (WAQ26357)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chadw'n ganolog am y costau a wynebwyd i dalu am asesiadau ers cyflwyno gofal nyrsio am ddim. Yr ydym yn y broses o gasglu data oddi wrth y byrddau iechyd lleol ar gyfer 2003-04 am nifer y nyrs-aseswyr a'u costau cysylltiol. Cesglir y wybodaeth hon ynghyd ar hyn o bryd a rhoddaf ateb pendant ichi maes o law.

### Nyrsys Practis

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y caiff manteision yr 'Agenda ar gyfer Newid' eu rhannu â nyrsys practis yng Nghymru? (WAQ26358)

**Jane Hutt:** Nid yw staff meddygfeydd wedi cael eu cynnwys yn ffurfiol yng nghynigion yr 'Agenda ar gyfer Newid' gan nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG. Fodd bynnag, mae'r contract

newydd arfaethedig ar gyfer meddygon teulu yn annog defnyddio egwyddorion yr 'Agenda ar gyfer Newid' mewn perthynas â'r aelodau staff hyn.

Er mai mater i feddygfeydd unigol yw penderfynu pa un i roi'r 'Agenda ar gyfer Newid' ar waith, mae Cydffederasiwn y GIG a phwyllgor y meddygon teulu ill dau wedi cefnogi'r cysyniad hwn.

### Taliadau Gofal yn y Cartref i Bobl Anabl

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pryd y mae'n bwriadu diddymu taliadau gofal yn y cartref i bobl anabl a phwy fydd yn dal i orfod talu taliadau o'r fath? (WAQ26359)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am weld ei holl addewidion yn ei maniffesto yn cael eu rhoi ar waith cyn gyflymed â phosibl. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar yr opsiynau a ffyrdd o weithredu'r polisi hwn, gan gynnwys amserlen weithredu. Dylanwadir ar fanylion y system codi tâl newydd, gan gynnwys materion megis pwy na fydd yn cael ei eithrio rhag y taliadau, drwy ymgynghori â defnyddwyr, eu cynrychiolwyr ac awdurdodau lleol.

### Ceiswyr Lloches

**Michael German:** Faint o blant 17 oed neu iau sydd, ar hyn o bryd, yn byw ar eu pennau eu hunain mewn llety gwely a brecwast neu hostel yng Nghymru ac sy'n ceisio lloches yn y Deyrnas Unedig? (WAQ26361)

**Michael German:** Pa drefniadau y mae adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u gwneud i gynnig cymorth i blant 17 oed neu iau sydd ar hyn o bryd yn byw ar eu pennau eu hunain mewn llety gwely a brecwast neu hostel yng Nghymru ac sy'n ceisio lloches yn y Deyrnas Unedig? (WAQ26362)

**Michael German:** Pa mor aml y mae cynrychiolwyr adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymweld â phlant 17 oed neu iau sydd, ar hyn o bryd, yn byw ar eu pennau eu hunain mewn llety gwely a brecwast neu hostel yng Nghymru ac sy'n ceisio lloches yn y Deyrnas Unedig? (WAQ26363)

**Jane Hutt:** Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon fel mater o drefn. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb o dan Ddeddf Plant 1989 i ddarparu gwasanaethau i blant mewn angen o fewn eu hardal. Mae'r diffiniad o blentyn wedi ei nodi yn is-adran 17(10) o'r Ddeddf. Os oes plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches yn dod o fewn y diffiniad hwnnw, mae gan yr awdurdodau yr un dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y plentyn hwnnw, gan gynnwys llety, ag i unrhyw blentyn arall yn eu hardal sydd mewn angen.

Ar sail yr wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr awdurdodau lleol, ar 7 Tachwedd 2002 yr oedd 49 o blant ar eu pen eu hunain, 17 oed neu iau, oedd yn ceisio lloches yn cael cymorth gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

### Cefnogaeth i Ofalwyr

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi gofalwyr yng Nghymru? (WAQ26364)

**Jane Hutt:** Gwneuthum ddatganiad ar hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mehefin. I gael rhagor o fanylion, trowch at y 'Third Report on the Strategy for Carers in Wales', rhoddwyd copïau ohono yn Llyfrgell yr Aelodau.

## Ymrwymiad i Foderneiddio Meddygfeydd ac Ysbytai

**Jonathan Morgan:** Pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi blaenraglen waith fanwl er mwyn cyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i foderneiddio meddygfeydd meddygon teulu ac ysbytai? (WAQ26365)

**Jane Hutt:** Mae'r Cynulliad eisoes wedi cydnabod pwysigrwydd buddsoddi er mwyn moderneiddio meddygfeydd meddygon teulu neu ddarparu meddygfeydd newydd. Yn dilyn gwaith treialu gan fwrdd iechyd lleol Rhondda Cynon Taf, mae'n ofynnol bellach i bob bwrdd iechyd lleol ddatblygu strategaethau ystadau gofal sylfaenol erbyn mis Ebrill 2004. Darparwyd cymorth ariannol o £30,000 fesul bwrdd iechyd lleol ar gyfer y gwaith paratoadol hwn. Bydd y strategaethau hyn yn rhoi syniad da o'r holl fuddsoddi sy'n ofynnol ar draws y maes gofal sylfaenol ledled Cymru, a beth yw'r blaenoriaethau.

Mae'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd, sydd wedi cael ei dderbyn gan feddygon teulu, hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd moderneiddio meddygfeydd a bydd nifer o gymhellion a mecanweithiau newydd yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, a minnau'n ymwybodol o'r angen i gynorthwyo gofal sylfaenol yn awr, rhoddwyd £3.1 miliwn i helpu i ddatblygu meddygfeydd newydd lle bo ecwiti negyddol yn rhwystro meddygon teulu rhag gwneud penderfyniadau buddsoddi.

Ar hyn o bryd mae rhaglen gyfalaf Cymru gyfan yn cynnwys 20 o gynlluniau ysbyty (wedi'u rhwymo o dan gontract) am gost gyfan o £116 miliwn, a chynlluniau sydd o dan ystyriaeth ar hyn o bryd gwerth £340 miliwn. Bydd y bwrdd buddsoddi cyfalaf sydd newydd ei sefydlu, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr GIG Cymru, yn ystyried rhestr o gynlluniau, wedi'u gosod mewn trefn flaenoriaeth, cyn gynted â phosibl.

Mae'r ymddiriedolaethau wrthi'n datblygu achosion busnes ar gyfer ystod o gynlluniau, gan gynnwys:

- adeiladau ysbytai cymuned newydd yn y Rhondda, gogledd Meirionnydd/dwyrain Dwyfor, Dinbych-y-pysgod, Merthyr Tudful, Cwm Cynon, Treffynnon a Glynebwy;
- adnewyddu'r adrannau damweiniau ac achosion brys yn ysbyty Llwyn Helyg a Chaerfyrddin;
- ailddarparu cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerdydd, Abertawe a Gwent;
- cynlluniau arbenigol, gan gynnwys cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau tân a gwaith gwaredu asbestos yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Glan Clwyd a newid pibellau dwr copr yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd.

## Heintiau sy'n Gysylltiedig â MRSA

**Christine Chapman:** Pa fesurau sydd mewn grym i gyfyngu ar heintiau sy'n gysylltiedig â MRSA mewn ysbytai yng Nghymru? (WAQ26512)

**Jane Hutt:** Mae nifer o fesurau ar waith i gyfyngu ar heintiau mewn ysbytai. Ymatebir i heintiau sy'n gysylltiedig â MRSA yng Nghymru fel rhan o'r holl heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gan gynnwys MRSA. Mae gan bob ymddiriedolaeth dîm rheoli heintiau, gyda'r bwrdd yn atebol ac yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwylio polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau. Mae'r trefniadau yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan broses archwilio Cronfa Risg Cymru.

Mae pob ymddiriedolaeth yn cadw golwg ar heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i weld pa mor effeithiol yw eu polisïau a'u gweithdrefnau.

Yn ogystal, mae Cylchlythyr Iechyd Cymru 2003/43 wedi rhoi canllawiau ar gynlluniau newydd fydd yn cael eu cyflwyno ledled Cymru yn ystod 2003. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun gorfodol i fonitro heintiau mewn safleodd llawfeddygol, adrodd am achosion o heintiau mewn ysbytai a thargedau i ostwng nifer yr achosion o heintiau.

**Moxifloxacin**

**Christine Chapman:** A oes ystyriaeth wedi'i rhoi i ddefnyddio moxifloxacin yn y DU ac yng Nghymru er mwyn atal MRSA? (WAQ26513)

**Jane Hutt:** Tra byddai unrhyw wrthfiotig newydd sydd â gweithgaredd sbectrwm eang yn cael ei ystyried i drin heintiau MRSA, mae profion labordy wedi dangos bod yr organeb yn gwrthsefyll moxifloxacin a'r grŵp eang o wrthfiotigau y mae'n perthyn iddo.

**Comisiwn Iechyd Cymru**

**Jonathan Morgan:** A gynhelir sesiynau cyhoeddus yn ystod adolygiad Comisiwn Iechyd Cymru o niwroleg, ac os felly, lle y cynhelir y sesiynau hynny? (WAQ26518)

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am adolygiad Comisiwn Iechyd Cymru o niwroleg o safbwynt a) amcanion a chylch gwaith yr adolygiad; b) aelodau'r pwyllgor adolygu; ac c) yr amserlen ar gyfer yr adolygiad? (WAQ26519)

**Jane Hutt:** Caiff papur ar yr holl faterion hyn ei gyflwyno i gyfarfod y bwrdd comisiynu cenedlaethol ar 30 Gorffennaf.

**Syndrom Blinder Cronig ac Enseffalomyelitis Myalgig**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chyfraniad at ymchwil yr Adran Iechyd i syndrom blinder cronig (CFS) ac enseffalomyelitis myalgig (ME)? (WAQ26550)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa ymchwil y mae'r GIG yng Nghymru yn ei gynnal i syndrom blinder cronig (CFS) ac enseffalomyelitis myalgig (ME)? (WAQ26551)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru i ymchwilio i achosion syndrom blinder cronig (CFS) ac enseffalomyelitis myalgig (ME), a thriniaethau ar eu cyfer? (WAQ26552)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad agos â'r Adran Iechyd, a gomisiynodd y Cyngor Ymchwil Meddygol i ddatblygu strategaeth eang i dywys ymchwil biofeddygol ac ymchwil y gwasanaeth iechyd ar syndrom blinder cronig ac enseffalomyelitis myalgig yn eu blaen. Yr ydym hefyd yn dadansoddi gwaith gweithgor o'r Alban a fu'n ymchwilio i'r salwch am gyfnod byr. Byddwn yn rhoi sylw i'r swmp sylweddol o ymchwil a geir yn yr adroddiadau hyn, ynghyd ag ymchwil y gweithgor annibynnol yn Lloegr, wrth ystyried y ffordd ymlaen i'n polisi ni yng Nghymru.

**Gwasanaethau Trin Clefyd y Siwgr**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a gaiff cyllid ar gyfer gwasanaethau trin clefyd y siwgr ei neilltuo ar ôl 2004? (WAQ26558)

**Jane Hutt:** Nid yw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau trin clefyd y siwgr ar ôl mis Mawrth 2004 wedi cael ei ddyrannu eto. Mae'r grwpiau cynghori lleol ar y gwasanaeth clefyd y siwgr, drwy weithio mewn partneriaeth â'r byrddau iechyd lleol, wrthi ar hyn o bryd yn paratoi eu cynlluniau gweithredu er mwyn cyflwyno 12 safon y fframwaith safonau cenedlaethol. Bydd adnoddau i roi'r camau sy'n ofynnol i gyrraedd pob un o'r safonau yn cael eu nodi yn y fframweithiau gwasanaeth ac ariannol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Prosiect y Fenter Trin Camddefnyddwyr Sylweddau yn y Rhondda

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog restru aelodau bwrdd prosiect y fenter trin camddefnyddwyr sylweddau yn y Rhondda? (WAQ26303)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Nid yw aelodaeth bwrdd prosiect menter drin y Rhondda ar ei gwedd derfynol eto ond bydd yn cynnwys y canlynol: cadeirydd; cynrychiolwyr yr awdurdodau sy'n gyfrifol (yr heddlu, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod lleol, y gwasanaeth tân); dau gynrychiolydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru; a chynrychiolydd o Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru.

### Prosiectau On Track

**Leighton Andrews:** Pa adnoddau sy'n cael eu darparu ar gyfer prosiectau On Track yng Nghymru? (WAQ26304)

**Edwina Hart:** Derbyniodd y ddau brosiect On Track gyllid o £898,000 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002-03, ac mae'r Cynulliad wedi dyrannu £1 filiwn i'r prosiectau ar gyfer 2003-04.

### Corus

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a wnaed i adfywio'r cymunedau hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan benderfyniad Corus i gau gweithfeydd? (WAQ26520) [R]

**Edwina Hart:** Yr wyf yn fodlon â'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar ystod eang o brosiectau a ariannir gan Corus. Ymysg y prosiectau a gefnogir mae'r strategaeth gwybodaeth a thelathrebu i Flaenau Gwent, sy'n cynnwys y ganolfan TGCh sydd newydd ei hagor a'r pecyn cymorth busnes TGCh ar gyfer busnesau lleol.

Yng Nghasnewydd, mae'r cwmni adfywio trefol, Newport Unlimited, wedi penodi Skidmore Owens a Merrill i gynnal ymarferiad cynllunio mawr ynghylch canol y ddinas, sydd i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd hydref 2003.

Yng Ngorseinon, mae datblygu llain 2 ar ystad ddiwydiannol Garngoch wedi creu lle i waith diwydiannol pedwar o gwmnïau, a rhagwelir y bydd y datblygiad yn creu 50 o swyddi newydd yn y ddwy flynedd nesaf.

### Yr Hawl i Brynu

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ymateb i'r 'hawl i brynu' yng Nghymru? (WAQ26523)

**Edwina Hart:** Mae'r ffigurau gwerthu o dan yr hawl i brynu drwy Gymru gyfan a ffigurau gwerthu eraill hyd at ddiwedd 2002 yn y tabl isod.

Dechreuodd y ceisiadau hawl i brynu gynyddu o ddechrau 2002. Erbyn ail hanner 2002, yr oedd y gwerthiannau wedi cynyddu rhyw 300 i 400 annedd y chwarter o'u cymharu â'r gwerthiannau flwyddyn ynghynt.

Mae'n bur debyg fod y cynnydd yn y gweithgaredd hawl i brynu yn gysylltiedig â'r cynnydd ym mhrisiau tai, sy'n gwneud y cynllun yn fwy deniadol, ynghyd ag awgrymiadau yn y cyfryngau y gellid cyfyngu ar yr hawl i brynu ar ryw adeg.

Ar ôl ymgynghori â mudiadau tai a grwpiau tenantiaid, cafodd y disgownt mwyaf a ganiateir o dan y cynllun hawl i brynu yng Nghymru ei ostwng o £24,000 i £16,000 o 2 Ebrill 2003.

**Anheddau awdurdodau lleol a werthwyd**

Nifer yr anheddau

| | Hawl i Brynu | | | | Gwirfoddol/Arall | | Ceisiadau cyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hawliadau | | Gwerthiannau a gwblhawyd | | Gwerthiannau a gwblhawyd | | |
| | Tai | Fflatiau | Tai | Fflatiau | Tai | Fflatiau | (ar ddiwedd y cyfnod) |
| **2000** | 5,210 | 390 | 3,163 | 232 | 28 | 20 | 3,895 |
| **2001** | 5,725 | 433 | 3,124 | 208 | 69 | 16 | 3,985 |
| **2002** | 9,501 | 765 | 3,927 | 302 | 37 | 2 | 6,501 |
| | | | | | | | |
| **1999-2000** | 5,301 | 435 | 3,311 | 223 | 37 | 19 | 4,160 |
| **2000-01** | 5,034 | 385 | 3,204 | 240 | 43 | 25 | 3,005 |
| **2001-02** | 6,191 | 495 | 3,145 | 210 | 80 | 9 | 4,380 |
| | | | | | | | |
| **2000:** | | | | | | | |
| **Ion-Maw** | 1,610 | 107 | 758 | 53 | 11 | 3 | 4,160 |
| **Ebr-Meh** | 1,390 | 115 | 777 | 48 | 5 | - | 3,900 |
| **Gorff-Medi** | 1,337 | 98 | 820 | 66 | 5 | 1 | 4,071 |
| **Hyd-Rhag** | 873 | 70 | 808 | 65 | 7 | 16 | 3,895 |
| | | | | | | | |
| **2001:** | | | | | | | |
| **Ion-Maw** | 1,434 | 102 | 799 | 61 | 26 | 8 | 3,005 |
| **Ebr-Meh** | 1,619 | 121 | 662 | 41 | 32 | 8 | 3,920 |
| **Gorff-Medi** | 1,488 | 111 | 758 | 51 | 6 | - | 4,140 |
| **Hyd-Rhag** | 1,184 | 99 | 905 | 55 | 5 | - | 3,985 |
| | | | | | | | |
| **2002:** | | | | | | | |
| **Ion-Maw** | 1,900 | 164 | 820 | 63 | 37 | 1 | 4,380 |
| **Ebr-Meh** | 2,306 | 174 | 811 | 59 | - | - | 4,287 |
| **Gorff-Medi** | 2,839 | 243 | 1,047 | 86 | - | 1 | 6,131 |
| **Hyd-Rhag** | 2,456 | 184 | 1,249 | 94 | - | - | 6,501 |

Ffynhonnell: Datganiadau WHO7 oddi wrth yr awdurdodau lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Crynhowyd gan: y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Nifer y Tai a Adeiladwyd yng Nghymru**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y tai a adeiladwyd yng Nghymru yn y categorïau y mae'n gyfrifol amdanynt, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y mae cofnodion ar gael amdani? (WAQ26524)

**Edwina Hart:** Y gwaith adeiladu tai y dylanwedir arno gan bolisïau'r Cynulliad yw gwaith adeiladu newydd gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn mynd hyd at flwyddyn ariannol 2001-02. Dangosir hyn yn y tabl isod ynghyd â ffigurau am flynyddoedd blaenorol ac am waith adeiladu newydd yn y sector preifat at ddibenion cymharu.

Yr awdurdodau lleol fel cyflenwyr tai strategol sy'n gyfrifol am asesu'r angen a'r galw am dai. Mae hyn yn unol â pholisi'r Cynulliad o ddirprwyo cyfrifoldeb i'r cyrff sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Cyllidir y gwaith o gyflenwi anheddau newydd gan yr awdurdodau lleol drwy gyllid cyfalaf cyffredinol a ddyrennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw'r cyllid hwn yn cael ei neilltuo, a'r awdurdodau lleol sy'n penderfynu sut y caiff y cyllid ei ddefnyddio yn unol â blaenoriaethau lleol.

Cyllidir tai newydd a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy'r gyllideb grantiau tai cymdeithasol. Eto, mater i'r awdurdodau lleol yw cyfarwyddo'r math o gynlluniau y dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ymgymryd â nhw.

| **Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl daliadaeth** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Nifer yr anheddau** |
| | **Awdurdod lleol** | **Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Menter breifat** | **Pob daliadaeth** |
| | | | | |
| **1997-98** | 2 | 1,938 | 6,492 | 8,432 |
| **1998-99** | 29 | 1,269 | 6,439 | 7,737 |
| **1999-2000** | 0 | 846 | 7,860 | 8,706 |
| **2000-01** | 47 | 900 | 7,386 | 8,333 |
| **2001-02** | 68 | 711 | 7,494 | 8,273 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Trosedd ac Anhrefn

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba gamau pellach y bwriedir eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? (WAQ26527)

**Edwina Hart:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gynorthwyo partneriaethau diogelwch yn y gymuned wrth iddynt roi strategaethau lleol ar waith i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn ac yr ydym ar fin rhoi cyllid newydd sylweddol ar eu cyfer. Mae'r ffaith y bydd hefyd yn ofynnol bellach i'r partneriaethau lunio strategaethau ar gamddefnyddio sylweddau yn caniatáu ymateb cryfach i broblemau cysylltiol cyffuriau a throseddu. Bydd diogelwch yn y gymuned yn flaenoriaeth uchel mewn llawer o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac mae'r heddlu yn cynnig cymorth gwirioneddol i lawer un gyda heddweision cymunedol penodedig neu swyddogion cymorth cymunedol.

## Polisi Tai

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi tai a'i effaith ar anhrefn a tharfu cymdeithasol? (WAQ26528)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo 'diogelwch drwy gynllun', sef menter yr heddlu i atal troseddu ar sail cynllunio tai. Rhaid i bob datblygiad tai cymdeithasol newydd gydymffurfio â'r safon hon.

Yr wyf wedi ariannu Sefydliad Tai Siartredig Cymru i lunio canllawiau arfer da ar gyfer landlordiaid cymdeithasol ar ddefnyddio rhwymedïau cyfreithiol i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yr wyf yn ariannu Cyfryngu Cymru dros dair blynedd i ddatblygu gwasanaethau cyfryngu cymunedol, ac i hyrwyddo cyfryngu yn gyffredinol.

Yr wyf yn noddi wyth prosiect ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â thai o fewn y rhaglen grant rheoli tai cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys prosiectau i ddarparu wardeiniaid cymdogaeth a chynlluniau tyst proffesiynol.

Yr wyf hefyd yn cefnogi'r mesurau tai yn y Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd newydd ar landloriaid cymdeithasol i gyhoeddi polisïau a gweithdrefnau i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

Yr wyf hefyd yn cefnogi cynigion y Mesur Tai, sydd ar fin ymddangos, i drwyddedu landlordiaid preifat ar sail ddethol, gyda'r diben o fynd i'r afael â'r lleiafrif o landlordiaid diegwyddor a'u tenantiaid sydd, yn aml, yn wrthgymdeithasol.